



kimkat.org – Gwefan Cymru a Chatalonia

[www.kimkat.org/amryw/1\\_testunau/sion\\_prys\\_100\\_y-partin\\_1919\\_3801k.pdf](http://www.kimkat.org/amryw/1_testunau/sion_prys_100_y-partin_1919_3801k.pdf)

## **Y Partin Dwpwl. Sef Racor o Hanas Ysmala Dai a Shoni yn y Rhyfel**

Awdur: William Glynfab Williams

Ganwyd: 1856, Aberystroth, Sir Fynwy

Bu farw: 24 Hydref 1947, Dinas, Sir Benfro

Cyhoeddwyd: Caerfyrddin / W. M. Evans 'Seren Cymru' / 1919



(delwedd 8112b)

Y LLYFR 'NI'N DOI.'  
Llyfr mwyaf Difynus yr Iaith.

# Y Partin Dwpwl

Sef  
Rhagor  
o  
Hanes  
Ysmala  
Dai  
a  
Shoni  
yn y  
Rhyfel.



GAN GLYNFAB.

CARMARTHEN:  
V. M. EVANS & SON, "SEREN CYMRU" OFFICE.  
Ddieu 1s. 6c.

5116

# 'Y Partin Dwpwl.'

RACOR O ANAS DAI A FINNA  
A'R RYFAL.

---

*"I gatw'r ên Dafottiath yn fyw."*

---

Gan GLYNFAB.

Awdwr—"THE RAVEN," Buddugol yn Eist. Gen. 1911;  
"SILVANO," a Nofelau eraill.]

---

## 'Shift y Diwetydd'

---

CAERFYRDDIN:  
W. M. EVANS A'I FAB, SWYDDFA "SEREN CYMRU."

5117

## CYNWYSIAD.

---

- Y Shwrna Ginta—“Randiboo o'r Short Ora'.”
- Yr Ail Shwrna—“Coolo lawr Diccyn.”
- Y Dryttydd Shwrna—“Ar Ascwrn y'n Cefan.”
- Y Betwarydd Shwrna—“A'n Gwinepa sha Berlin.”
- Y Bimfad Shwrna—“Yn Nghenol y Panarmonian!”
- Y Wechfad Shwrna—“Sleepin' Pills an' so on.”
- Y Seithfad Shwrna—“'Ow Ni'n Doi Saved the Situashion.”
- Yr Wythfad Shwrna—“Wrth Drod y Bryn.”
- Y Nawfad Shwrna—“Mas o'r Pot Sam.”
- Y Ddecfad Shwrna—“Cheers a Promoshon.”
- Yr Unfad Shwrna-ar-Ddeg—“Y Clatcho Ffyrnicca Ariod.”
- Y Ddoiddecfad Shwrna—“Avoc ar Venjance.”
- Y Dryttydd Shwrna ar Ddeg—“Tynu Sha Weelod y Pwll.”

## Y PARTIN DWPWL.

### Y SHWRNA GINTA.

'RANDIBOO O'R SHORT ORA.'

'**M**A i o'r diwadd,' mynta Dai, 'Wy ti, Shoni, yn gwpoð beth sy weti'n striko i?'

'Nacw wir ddyd,' myntwn i. 'Alla i ddim gesso bachan; gwed mlan, wath ma'r 'forward movemant' bothdi dychra.'

'Wel, Shoni,' mynta Dai, 'geira'r bachan bach na gladdson ni ddo ddiwetha. Wy ti'n cofio? Pan odd a bron ffeelu anatlu i wetws,—

'Did I do my duty? Wot will they think of me at 'ome?'

I ethon y'n doi yn ddishtaw.

'Ia, ia,' mynta Dai. 'Sa pob showdwr yn pinno y geira ar i frest—' Wot will they think of me at 'ome,' fyssa Will y Bwtchwr o Berlin ddim yn 'ir cyn cal job i dorri cerryg o dan boys y wyrcws.'

'Eetha right Dai,' myntwn i.

'Ia, a sa pob crottyn a chrotten,' mynta Dai, 'wrth âtal Cymru i fynd sha Lloegar, ne rywle arall, yn gneyd r'un peth, fyssa ddim cwmmment o waith i'r

A

ffeeraton a'r pyrgethwrs i weiddu Mesopotamia a Gibboa yn y cyrdda prygethu. Na fyssa, creta di fi. Fyssa ddim cwmment o bechaduriaid yn y byd: fyssa pob crottyn a chrotten yn rwy short o genatwr iddi nw'i unen.'

'Bachan, Dai,' myntwn i, 'Old on, myn yffryd i. Take time, bachan. Sa yna'n diccwdd i fyssa'r ffeeraton a'r pyrgethwrs mas o job: i fyssa rwpeth felna yn ry depyg i'r 'Self-raising Flour,' ne'r sepon sy'n golchi unan.'

'Gwet di beth licci di, na'r fact, Shoni, a na'r patant levar sy'n mynd i weetho mashine yours confectionately Dai Jones—

'Beth weta nhw yn nre?'

Ma lliced Cymru arno ni'n doi, a phob doi arall.

'Beth weta nw yn nre

Am Dai a Shoni Morgan?

Os do nhw 'nol yn fyw

R'ol gneyd blawd-llif o'r German:

Beth weta'r Parlamant

Am showdwrs gora'r gwletydd?

Ma dwy line ytto, a ma rwpeth yn gweyd am i fi neyd wind-up fel 'yn—

Fod wyrkouses y wlad

I ni i dreelo'n dwetydd.'

'Eisht bachan cebyst,' myntwn i. 'Showdwrs yn

gorffod treelo diwetydd i òs miwn wyrkws? Ar ol bod yn wmladd dros i gwlad? Paid bod yn ionc, Dai.'

'Ionc efa, Shoni?' mynta Dai. 'Na ffordd odd petha weti bod, yn ol yr anas. Sawl trempyn alws wrth ddrws back y'n ty ni, a diccon awdd gwpod ma showdwr odd a weti bod wrth i gerddettiad a. Ar ol colli lliccad, ne fraich, ne gòs yn y ryfal yn gorffod becan i fara chaws.'

'Der di, Dai,' myntwn i, 'Cw'n di galon. I ddarllenias i fod Membar of Parlamant yn gofyn i'r Llywottrath i addo cymryd neb on y boys fu'n wmladd dros i gwlad fel swddocion o 'yn i mas, ne, o leia, roi'r first chance iddi nw.'

'Membar o Parlamant,' mynta Dai. 'Ca di fox, Shoni, a phaid a chleppran am Fembars of Parlamant, y tacla sy'n coleri petwar cant o binna bob blwyddyn, a ynnny pan ma eesha arian ar y wlad! Os un o nw weti cinnyg gweetho am ddim? Os na Fembars o Parlamant yn wabblo Will o Berlin a sepon meddal, gan obeetho, walla, i gal i gneyd yn 'Gompositars,' ar ol i'r ryfal wero mas, a Will yn dicewdd ynnill.'

'Ambassadors wy ti'n feddwl Dai,' myntwn i. 'Sdim use blaggardo pob membar achos fod amall rapskaliwn yn dicewdd bod yn i cenol nw. Ettrych ar Mabon; ettrych ar Dafydd Lloyd George! Diccyn o drick i ti ffindo short y ddoi na, o otti.'



'Allu di stoppo, Shoni,' mynta Dai. 'Os neb weti bod yn braggo mwy o Mabon a Lloyd George na fi. I netho i englyn iddo pan gâs a i gwnni yn Chancellor; wyt ti'n i gofio fa spo. Ma fa, i rows Mishtir diceyn o bolish arno, jest i gael y corneli yn right.

Henffych well o Ganghellydd!—y gwr bach  
 A geir byth daw i'th glodydd;  
 Wirione dy gyd-garrennydd—  
 'Hip hwre' yn chwap a rydd.

Gymru Lân, e gân y gôg—ar fyr  
 Eiriau i fawredd anhalog:  
 Ie—'clywch,'—fydd sain pob clôg—  
 'Hwn ydyw'r Prif Weinidog.'

A ma fa nawr beth wetas i—yn Brif-winitog Pryttan. Wy ti'n cofio stori'r plant bach yn gweetho ecclws o glai.

'Ottw,' myntwn i, 'on wad ymlan Dai.'  
 ddath y ffeerað mlan, a i ofynws,—  
 'Be chi neyd blant bach?'  
 'Ecclws ser,' mynta'r plant yn attab fel cantata.  
 'Da mhlant i,' mynta'r ffeerað yn wên o glust i  
 glust. 'Beth yw 'wn, a beth yw 'wn, a 'wn?'  
 'Y clochdy ser, y porch ser,' mynta'r plant.  
 'Ble ma'r ffeerað?' mynta fa.  
 'O, ser, odd dim diceon o glai gyttta ni i neyd  
 ffeerað,' mynta'r plant.  
 'Na fel ma i gyttta'r Membars of Parlamant Shoni,

w i ddim yn cretu fod na ddiccon o glai i gâl i neyd mwy na un Mabon, a un Lloyd George.'

'Wel, Dai, 'myntwn i, 'Gad y Membars yn llonydd. All for myself i nw, a'r rest i Shoni mrawd. Ffreio yn y pappra un dwyrnod, a fraich y mraich yn cerad i'r clwb yn Llundan y dwyrnod wettyny. Brawlach a streeffan o bothdi 'Ome Rule a chlatcho ar yr Eclws yn lle gwranddo ar Lord Roberts a Lord Charles Beresford.'

'Germany an' England will never be at war,' mynta nw. 'Never' eetha short odd a, ar mencos i. Sa ffittach fod eetha army gytta ni mas ar y dychra, a i fyssa lot o'r avoc ar Ffrainc a Belgium weti safio. I glywast stori'r fam a'r ddoi grottyn. Odd Will a Dai yn wara o bothdi'r tÿ, a'r fam eesha i un o nhw i ryttag ar necas.

'Wiliam!' mynta i, miwn llaish rwpeth rwng ootar y Mauretania a mouth-organ.

'Well,' mynta Will.

'Beth di neyd?' mynta'r fam.

'Dim,' mynta Will.

'Dafydd!' mynta'r fam.

'Well,' mynta Dai.

'Beth di neyd?' mynta'r fam.

'Elpu Will,' mynta Dai.

'Na beth ma y ran fwya o'r Membars yn i neyd efyd,—elpu i giddil i neyd dim, fel Will a Dai, a chal cheque o gân punt pob cwartar am ynny,' myntwn i.

'Dyn-di-shefo-ni,' mynta Dai. 'Bachan, ma yn bryd doti check-weigher ar ben y pwll na. Shoni.'

'Wel, ma fi yn gweyd goo' bye wrth y Parlamant, ma ngên i jest troi yn frwsh cânes; w i yn mynd i shafo. Wy ti'n gwpod, Shoni, beth sy yn y mwzzlo i?'

'Nacw'n wir,' myntwn i.

'Wel, w i'n colli diiccyn o ngwallt o ar goppa men, a ma fi'n gorfod shafo ngên. Pam ny? Sa'r wiskars sy ar y ngên i yn galw 'mass meetin', a setlo i ddychra sproutan ar y ngoppa i, i fysswn yn falch. Rwpath od fel criatur yw dyn, ma fel sa poppath o with.'

'Bachan, wy ti'n ngofio i am Irishman odd yn gweetho ar dop y screens ar ben pwll y Winsor, odd a'n lodgo gyttta Mari, gweetw Moccyn Pwll-up. Diiccyn o gobben odd Mari, a odd dim waste cnwylla ar fora tywyll i fod. Odd i'n fora tywyll yn y geia; i gwnnws yr Irishman bothdi petwar, i wisgws i drywsis an' so on; fyttws i freewas, a off ag e sha'r gwaith.

Fu a ddim yn 'ir cyn slippo o ben y screens, a lawr ath a ar i ben i'r sidin'. I ryttws pob un o'r gweethwrs i ettrych, yn dishgwl dod o 'yd; i gorff marw. On odd yr Irishman ar i drád, yn ettrych diiccyn yn yrt.

'Are you urt, Mike,' mynta'r gaffar.

'No sorr,' mynta Mike yn inspecto i drywsis, 'but be jabers, I've had a terrible twist.'

Erbyn ettrych odd dim byd yn mattar ar Mike, on i fod a weti dicewdd gwishgo i drywsis a'r part ol y mlan yn y twyllwch y bora ni. Na'r twist gas Mike.

On i ddath yn 'stop lamps' ar y'n clepar ni, a off a ni yn y twyllwch, yn single file, pob cwmpni yn dilyn i scout, mlan am bothdi annar milltir. Lie down wettyny am spel.

I liccech gal gwpwd shwt i ni'n gweetho pan ar y'n gora yn ceesho sceepo'r bawgwms o fodolath. Liccech figinta. Wel, o'r gora, i gewch, 'ynny yw,— D.V.

I chi gyd yn gwpod beth yw D.V. Ottich, ottich. Chewn ni ddim gneyd 'eb bo 'rwy un uwch ben yn folon.' Odd 'en goach-driver o — i — os slawar dydd, diccyn yn jealous o goach-driver arall o'r un pentra. I welws yn y pappar fod wnnw'n gweyd y byssa'i goach a yn ryttag o — i —, D.V. Er mwyn i feiddu fa i ddotws ynta notiss yn yr un pappar; rwpath fel 'yn -- 'John Jones' coach will run from — to — every day, D.V. or not.'

Odd yr 'en foy siwr o fod yn cretu ma 'bwrw glaw' odd yshtyr D.V. I chi, ddyrllenwrs, yn gwpod yn wanol.

Wel, am wech yn y bora, i geson y'n galw at y'n giddil ar yr ewl fawr yn acos i'r pentra wetas i am dano yn y shwrna o'r blan. Mlan a ni i gwm bach

cul trw bentra arall. Odd y spot yn y nghofio i am  
ddwy line yn dishgrifio Cwm Rhondda,—

‘Cwm llun y sarff, cwm llawn o sôg,  
Cwm culach na cham ceiliog.’

Wrth gwrs odd dim argol am sôg yn y cwm bach  
wn. Off ytto. Ma'r cenyns yn dychra roaro! Yn  
gros i bont fach dros afon bert, a sa amsar spâr gytta  
ni, i fyssan yn cal shawns i bippan ar amall i frythill  
yn pownsan lan i'r afon, yn wilo am gleren i frecwas.  
On odd dim amsar boys. Na! ma,—

‘Swn rhyfel yn y gwynt  
Daw yn nes, yn gynt, yn gynt.’

W i'n cretu y newita i ddiwadd y pennill, a gatal  
y geira gwreiddol i shifto; rwpeth fel 'yn—

‘Mae swm rhyfel yn y gwynt,  
Daw yn nes, yn gynt, yn gynt,  
Swn Germaniaid ar eu hynt  
Yn sathru tir a hedd Ewropa.’

Am un o'r gloch, ma staff officar yn gyrlappo at y  
Kernal; ma wnnw yn galw'r captans, yn sponio'r  
map i ddangos y dreckshwn o ni i fynd. Ma ni off.  
Ar ol cerad bothdi milltir, lan a ni dros ochor bryn  
bach, trw allt o gôd, a draw o ni'n gweld twmpin  
bothdi cant a annar o latheidi o 'yd. Eisht-taw-son  
am diceyn, a lan a ni, yn crippan yn eetha tawal. I  
stopson, a i ath cwppwl o foys i dop y twmpin a i

orweddson ar i gwynepa. Gwnnws un i ddryll lan, a ma'r lifftenant (ia, ia, Ted odd a) yn crippan mlan idd i joino nw. I sefws y'n platoon ni o'r golwg, on, yr arcol, ma'r bwlats yn fflyan dros y'n penna ni fel Beecham's Pills. I welws y scouts bishin fflat o wlad bothdi milltir o 'yd, a spots o gôd nawr a yn y man. Jest annar ffordd odd twmpin tepyg i'r man 'ny lle odd y bwlats yn dod. Odd y Sossinjers weti cal cewc arno ni. Wrth gornal bryn y Germans odd twmpin o sand, a ma Lifftenant Ted yn galw am 'three good shots.' Wel, os possib os ôs raid i fi weyd pwy odd doi o'r tri, ôs a? Cystal gneyd clean brest; i geso 'Ni'n Doi' a bachan arall y'n pecco mas. Lan a ni, i orweddson lawr, a fi bointson y ddryll.

'I think,' mynta'r Lifftenant, 'the range is 800, fire Jones.'

I shapws Dai, i danws, no result.

I dreiws y bachan arall 750, no result.

I gitchas inna yn y'n nryll, gymras bwynt am 700, i danas, a i welws yr officar trw i spyin'-glass bwff bach o ddwst yn cwnni ar y twmpin sand.

'That's the range boys, 700,' mynta fa.

Ma'r sarjant yn dod a'r boys i lan atto ni.

'Give the blightars five roun's,—fire independantly at 700 yards,' mynta fa.

Ma i off! O ni'n gweld penna'r rapscaliwns yn poppan lan, on i ceson i. O do. On odd y Germans

ddim yn secur, odd swm y bwlats yn weepan eebo, a amall i ochenad ar y'n pwys ni yn gweyd fod rwy boor dab weti chal i. I ddath yn ddishtawrwdd ytto, a beth welso ni on crowd o'r Sossinjers yn i brasgamu ddi shag ato ni. Am amsar odd dim i weld a dim idd i glywad on mwg a swm y cenyns o draw, a'n dryila ni. Odd amall i German yn cwmpo lwr-i-ben, on mlan odd y rest yn dod. Ia, co string o Germans yn treio dodge arall, yn i ryttag i ar 'yd ymyl y bryn: yn y golwg am diccyn, o'r golwg wettyny, a'r bwlats fel cawotydd o bys o fan arall yn y'n cyrradd ni.

'The enemy is advancing by rushes, an' takin' cover as he halts after each rush.'

Na glywson ni'r officar yn i weyd.

'Mark the groups,' mynta fa, 'and I'll give the range; then fire.'

Na netho ni, un cwmpni yn tano at y rushin' Germans, a chwmpni yn gwllwn ergytion at y sand. Na rwy fath o amcan i chi, ond y tro wn odd dim o'r mashine-guns yn gweetho. I gwmpws lot o'n boys ni, on i scapws y ran fwya eb gal i lladd. I gas y Sossinjers mwy na diccon myn depyg, wath i geson dywelwch am dair awr, a na lle buon ni yn gneyd eetha trench.

'Dai Oi,' myntwn i, ar ol i boppath ddishtewi.

'Right O, Shoni,' myntai Dai diccyn o belltar off.

Ma fa'n dod yn climmercan diccyn, a'r gair cinta  
wetws a—

'Ro fatchan i fi, Shoni, wath ma want wiff arno i  
yn ddychrynlyd, os wir ddyn.'

Na deemlata pob un o'r boys odd yn perthyn i'r  
Welsh, eeto dim ffig am Will na'i griw. Dyw a ddim  
syndod fod Mishtir Ni'n Doi weti gweyd miwn cân  
Sysnag,—

'Thinks he's playing football  
When he rushes at the Huns;  
Sings his 'Men of Harlech,'  
As he runs to spike their guns;  
'Kamerad!' they're shouting  
When young Taffy's face they see,—  
He's a 'hero' all over, is he.'





## YR AIL SHWRNA.

### 'COOLO LAWR DICCYN.

**A**R ol cwppla damshal ar gyrn y Germans i geson spel fach, jest i goolo lawr: O ni'n eetha siwr na fyssa ddim want ar y blokes i wân i bisedd i'r tân am diccyn bach ta beth.

'Bachan,' myntai Dai, 'W i'n wys dyferu. Ma rwy durn out fel 'wn yn warth na gweetho yn y stêm coal; i allu wascu'n ngrys i, a i ddaw diccon o ddwr mas o no i neyd poun' i olchi defed yndo, myn yffryd i.'

I wyrthinas i, allwn i ddim peedo wir ddyn, wath odd ettrych ar Dai, a wnnw mor gochad a signal railway, a'i wallt a'n ffliwch, yn ddiccon i ela'r marw i wyrthin. I droison nol at y trenches nillso ni, Ni'n Doi a'r rest odd yn fyw, a miwn wincad ma Dai yn colli drôd, a miwn ag e blwnsh ar i ben i dwll yn ddiccon mawr i alw chi arno fa. Wel, walla ddylswn i ddim gweyd ar i ben efyd, wath odd Dai yn eetha tebyg i gath, yn lando ar i drâd wastod.

Ma screch mwya dychrynlyd! I needas i lawr i geesho catw bywyd Dai o ni'n feddwl, on yr arcol anwl, beth welas i on slashyn listy o German ar i

benlinna yn becan am i fywyd, a Dai yn ishta o'i flan a yn wyrthin fel ffwl.

'Got a wife an childran,' mynta fa, yn weppan a becan.

'O ave you,' mynta Dai, 'You ought to think of that before leavin' the old ooman an the kids.'

'I nevar say Gott strafe Englan',' mynta'r en wlanan.

'Ay, ay, naddo figinta,' mynta Dai, 'on ma diccyn o strafe i fod rwngo ni miwn wincad.'

'Nein! nein!' mynta'r en gwtin mwg, 'nein!'

'Nine, myn yffryd i,' mynta Dai, 'bachan wy ti siwr o fod yn pyrthin yn acos i Brigam Young, yn short o broffessional widman. Wel, phrioti di ddim o numbar ten, wath wy ti yn mynd i gâl y ffinishin' stroke da fi.'

'Non! non!' mynta fa, yn cretu na odd Dai ddim wetti ddiall a, a odd Dai ddim efyd, os i chi am wpod y gwir.

'Been to London,—good English,—kind English,' mynta fa.

'O ave you, my nabs,' mynta Dai, 'you will ave to fforffit your return tickat mun. Bachan, Shoni, ma wn weti peeco lan mwy o deemlata caretic miwn petar munad na ddyscws a ariod o'r blan. Ma yn dda i fod a weti dyscu rwpeth, ma gopath am neyd dyn o'r bachan allu fentro.'

'Criatur miwn cornal yw Dai,' myntwn i, 'I wetiff rwpeth er mwyn cal catw i fywyd. Wy ti'n cofio stori'r gath a'r ligotan? I fuas i yn attrodd y pishyn pan o ni'n grottyn bach, w i ddim yn cofio'r geira.'

'Gwet ti'r story, a i shapa i diccyn o bynnillion ar ol lando'r en bledran fwg ma yn y quad.'

'Thenkyw Ser,' wetas i.

Ma'r gân nath Dai, rwy fath o 'revised version with apologies to the original author.' Na diccyn o dwteh Llundan i chi. I dotwn i miwn man 'yn, er ma ar ol cloi'r boy yn y lock-up y gnath Dai y gân. Walla efyd, sa chi'n pippo, ar yr original, y ffindweh chi ychyttig o waniath, w i ddim yn garantio ma'r un gath yw i.

### 'Y GATH A'R LIGOTAN.'

(GAN D. CONUNDRUM JONES.)

Ath lligotan fach lwyd,  
Wrth wilo am fwyd,  
Ar i phen i badellad o frecci;  
A yna lle bu  
Yn mofiad yn hy'  
I gatw i unan rag môci.

Bu'n mofiad fel 'yn  
Rown' i'r en battall din  
Am amsar,—a'i anal bron diffodd,—

'Elp, elp!' mynta i,  
Rowch 'leg up' i fi,  
Ma'n ddisgras i mi foddi miwn diod.'

Dath Pwss y gath wen  
I bippo dros ben  
Y batall a'r brecci miwn wincad:  
'Miss Pwss boed i chi,  
Roi pawen i fi,  
I brofi y'ch bod yn Samariad.'

'A ga i,' medd Pwss  
Ar ol yr oll ffwss  
Di fyta?' 'Cewch,' mynta'r ligotan,—  
'Cewch fy mytta yn fyw,—  
Ma blas cas da Ome-Brew,'—  
A i'r lan y dath, wiw, fel llychetan.

'W i'n diolch yn fawr  
Miss Pwss i chi 'nawr,  
Am roddi elp llaw fel Samariad,  
'At your service I'll be  
On' rosswch i fi  
Shigglo'r ewrw o'm croen, jest am funad.'

'Ah,' mynta'r en gath  
Caf bryd heb ei fath  
Caf y 'courses' i gyd i fy unan,  
On pan ath i'w dal,—  
Wiw,—i dwll yn y wal,  
Ar ol sychu, yr ath y lligotan.

'For shame,' mynta'r gath  
Wir i ddyn wy ti'n wath  
Na Will o Berlin un diwyrnod,—  
Eisht, taw gath a sôn,  
Jest leave well alone,  
Os dim grym miwn addewid miwn diod.'

'Eetha right, Dai,' myntai i, 'sdim diolch i'r beggar ma wath ma fa miwn cornal yn cal i wascu.'

'Otti, otti,' myntai Dai. 'Now goo' boy, wy ti'n ettrych yn fachan eetha apal, cwn ar di drad, gad ni gal gweld os ôs gen ti rwy glem ar gerad. Starta. Ma meddwl am di blant ti weti toddi diccyn ar y nghalon i. Get up Sossinjer.'

Wir ddyn i gwnnws ar unwath, on odd i wefla fa mor sych a choreyn.

'March!'

I fartchws.

'No tricks,' mynta Dai.

'Nein,' mynta fa, yn brefan fel dafad.

'O,' mynta Dai. 'Nawr w i'n di ddiall di bachan diarth. Nein is No. Wel cer mlan, a wrth weyd di brayars eno yn y lock-up, ro diccyn bach o dwtch Cwrdd Diolchgarwch, a diolcha ma doi griatur tynar galon, fel Ni'n Doi, di ddalws di.'

Odd y bloke ma weti bod yn Llundan, on odd dim o 'yn yn gweyd llawar o'i ochor a. Ma llawar i fachan ne ferch weti bod yn Llundan fyssa'n well i bod nw weti aros yn nre. I ath Dick, mab Twm a Nanny Cefenbryn sha Llundan, i fuws no am bothdi blwyddyn miwn shop ddrapary, i ddath sha thre ar i olidays, a dim on' Sysnag odd a'n frawlan : weti colli i Gwmrag i gyd. I greiddws y bwthyn bach to gwellt, a na lle odd a yn guffs, yn golar, yn gold pin, a scitsha patant leather, a 'at, rwy gross breed rwng bowlar a

box 'at. Dim on' i fam odd yn dicewdd bod yn y tŷ, ar y pryd; odd yr 'en wr i dad yn gneyd clawdd yn y ca wrth gefan y tŷ.

I safws yr en Nanny fel post yn staran arno.

'Richard!' mynta i, a'i doi liccad fel dwy sowsar.

'Ow do, maw? An Ow is Paw?' mynta Dick.

'Richard bach!' mynta Nanny, 'be sy arno ti?'

'Dim Cwmrag maw,' mynta Dick, 'Dim Cwmrag.'

'Ishta lawr,' mynta Nanny, 'i â i i alw di dad.'

'Really maw, dont excite yourself,' mynta Dick, 'dont really.'

On mas ath Nanny i wilo am Twm.

'Tomos,' mynta i, yn pwffan jest mas o anal. 'Der sha'r ty, ma Richard weti dod; ma fa weti gwishgo fel gwrboneddig, a iaith gyttfa fel ma nw yn i wilia yn Llundan. 'Maw' w i, a 'Paw' wyt ti. Dera sha'r ty, Tomos bach.'

'Aw,' mynta Twm, yn poeru'r bilsen bacco mas o'i ben, a yn tynu cillath o bocced i wascod i dori pishyn o bastwn onan eetha trwchus. 'Aw, weti anghofio en iaith y bwthyn tô gwellt otti fa? Ble ma fa Nanny?'

'Yn ishta yn y parlwr gora,' mynta Nanny.

I ath yr en gwppwl i ddreckshwn y ty, a ma Twm i miwn i'r parlwr. Ma Dick ar i drad fel jack-i-jumpar.

'Ow do Paw?' mynta fa. 'Ow do governor?'

B

I greiddws Twm un bonclust iddo nes i fod a ar i yd ar y llawr, a wettyny ma'r pastwn onan ar i gefan a, yn swno'n depyg i amsar spring cleanin'.

'Nhad, nhad anwl!' mynta Dick, 'Peedwch a'n lladd i!'

'Da machan i,' mynta Twm, 'Wy ti'n eetha quick ar beeco Cwmrag i'r lan. Cwn ar di drad, a ishta ar yr en gatar freecha. Sdim yn well na phastwn onan i deutro bachan sy weti colli i Gymrag.'

Faint ishtws Dick, os neb yn gwpod, wath odd y pastwn onan yn depyg i'r sepon na ma nw'n weyd am dano—'Leaves a good impression behind.'

Sa'r German ma, a phob German arall, a Will y Bwtchwr o Berlin, a'r chap na ma nw yn i alw fa yn Von Turpantine, yn cal eetha dose o bastwn onan, i netha les i nw. I can i rwy ddwyrnod. Can cret-wch i fi.

Mlan a Ni'n Doi a'r prisnar; o ni a'n llicced yn acor; sa fa on treio wara i dricks, i fyssa yn ddoobbino arno ar mencos i. On dim fears, odd y bachan yn eetha balch i fod a'n fyw.

'No me strafe Englan', mynta fa. 'Look Kaiser, ach, say Gott strafe Englan'!

'Paid a beccso bachan diarth,' mynta Dai, 'Let's see that papar mun.'

I gitchws Dai yn y pishyn pappar, a i ddishgwilws arno.

'Wel Shoni,' mynta fa, 'Ma wn yn cappo poppath. Dishgwl bachan.'

'Otti wir ddyn,' myntwn i, 'On shwt wy ti'n mynd idd i ddiall a?'

'O, i gaiff my nabs ma sponio'r German langwidge,' mynta Dai. 'I ni'n ddiecon o scolaris i wpod pwy sy'n blino stwmog Will o Berlin. I fydd pittwr o Ni'n Doi yn y pappra ar ol 'yn allu fentro.'

Ma odd ar y pappar, amall i air weti blotto mas gan y dwr a'r slwdge yn y trenches:—

'KAMARADEN.'

'ICH RATE DIR.....ENTDECKEN.....SHONI  
MORGAN UND DAI JONES... ..BESONDER.....  
UN JEDEN PREIS.'

'Ma beth yw cystatlu ar bishyn eb atalnota yn y cwrdd bach wech cheenog, Shoni,' mynta Dai. 'Dere bachan diarth, sponia'r German ma. Wot's this mun?'

I ishteddson y'n tri, a ma'r boy yn dychra, a w i boun' o weyd i fod a'n styffaglan Sysnag yn dda diginnig:—

'Kameraden'.....Comrades.

'Right O,' mynta Dai.

'Ich rate dir.'.....I advise you.

'Na laish Will o Berlin, Shoni,' mynta Dai:

'Entdecken'.....to discover.



'Shoni Morgan und Dai Jones.'

'Ma wna'n eetha plaen,' mynta Dai.

'Otti otti,' myntwn i, 'Ni'n Doi sy'n beccso Will.'

'Besonder'.....Especially.

'Go on Cock-Robin,' mynta Dai.

Odd na diceyn weti i flotto ar ol 'Besonder' on awdd gwpod i regettiad a.

'Un jeden Preis'.....at any cost.

Ma'r pishyn i gyd,—

'Comrades, I advise you to discover Shoni Morgan and Dai Jones especially.....at any cost.'

'Thenkyw old chap,' mynta Dai, 'an now we'll make a move.'

Off a ni.

'Diccon tepyg fod Will o Berlin yn cretu on iddo gal gafal yn Ni'n Doi y bydd lando yn Mryttan on rwy wara plant,' myntwn i.

'Thenkyw William for the warnin',' mynta Dai, 'but Ni'n Doi ave booked a bed in the Red Cow in Berlin. I ni'n doi yn ry ên i Will.'



## Y DRYTTYDD SHWRNA.

'AR ASCWRN Y'N CEFAN.'

**M**A'R shwrna ma yn starto a thwscid o sêrs.  
Pam ny? Wel, i gewch wpod jest nawr.

\* \* \* \* \*

I wetws y Pêr-ganietydd, fel ma'r ffeeraton a'r prygethws yn i alw fa, fod y sêrs yn apal i wilia. Ma nw, wir ddyn. Ma'r rai 'yn yn wilia yn ddiccon uchaf, on i chi glustfeeno. Odd Dai, ar ddiwadd y shwrna o'r blan a diccyn o duadd at ormottiath.

'I ni'n doi yn ry en i Will,' mynta fa. 'No fears, my boy, dyw Will o Berlin ddim weti cal gafal ar fachan ddiccon apal i shapo cannon i ddrilo twll trw Shoni a finna. We are alive an kickin. Ottin, ottin,——.'

Ond——.

Na strokan eetha îr, a ma lot yndi efyd. Rwpath o bothdi'r pappar na ddarllenws y German odd yn gweyd fod 'Reward' mas gyttta My Nabs am y'n dala Ni'n Doi. Wel, ddalson nw ddim o ni, on —— i ddalws rwpath ni, ar mencos i, a'r rwpath wnnw odd—*Gas!* I geson dwtch bach o'r gas, a'r peth diwetha w i yn i gofio yw Dai yn gweiddu,—

'Shoni Oi.'

'I atepas i,—

'Dai Oi.'

Ar ol 'yn i ath poppath yn dywyll fel sa chi yn colli gola yn ngenol 'en waith, a ffeelu i thrackan i sha'r twll cloi. I neggws y gas ni, a i ethon ar y'n penna i wlad y bryddwyton. Fel o ni'n arfadd i thonean i yn oratorio Samson.

'Total eclipse! No sun, no moon, no stars,  
All dark amid the blaze of noon.'

Pan ddiunson ni i fuon jest cal bobo ffit. Yr arcol, na le glân, a na grottesi pert, a na welia bach twt, a na ddishtaw odd pob un o'r crottesi bach yn cerad! I agoras y'n llicced, bippas o bothdi,—wir ddyn i gochas diccyn pan ddath crottan bert diginnig at ochor y gwely; i dreias stwffo men dan y dillad, on—no go.

'Wel,' mynta'r grottan, 'Ow are you numbar seven?'

I wyrthinas a i atepas,—

'Wel, my dear, it as come to somethin' that Corporal Shoni Morgan as come down to be only a numbar.'

I wyrthinws y grottan, on wetws i ddim.

Miwn ticcyn i glywswn laish. Dai odd no.

'Shoni Oi,' mynta fa. 'Bachan, ti sy na? Ma le bachan! Ottin ni yn un o Three-atars Cardydd?'

Ne walla ma te-parti Yshgol Sul sy ma. Beth ti'n gretu, Shoni ?

I drows y grottan a i wetws yn eetha sharp,—  
'Numbar six, you must not talk.'

I dynnws Dai i gyrna miwn fel malwotan ar ol i chi ysgwd dwrnad o alan ar i phen i, a ma'r tro cinta i fi weld Dai yn ffeelu attab, i geiws i fox glatch. Off a'r grottan yn shigglo i chwt, a wrth i bod i yn mynd eebo i allsach gretu fod shop drug-gistar yn passo. I ddath nol, miwn ticcyn, a bobo ddishglad o beef tea; i ddotws rwwpath fel neeshad bock o dan ên Dai a finna, a mynta Dai,—

'Ma i Shoni! Myn yffryd i, ma i. Ma ni'n ol yn 'fabies' unwath ytto yn gwishgo bibs; allu fentro y cewn ni bobo rattle yn y'n deelo i gal ynjoymant trw'r diwetydd.'

'Miss,' myntwn i, 'Wot is this place, an ow long as my butty an me been ere?'

'This is a Ospital,' mynta'r grottan, 'an you ave been ere four days? You were both badly gassed, but the doctar says you will be convolutions in about a week or two.'

O ni'n diall ma yshtyr 'convolutions' odd rwwpath o bothdi y'n bod Ni'n Doi yn peeco lan diccyn, ne ar wellhad. Odd no lot o boor dabs yn gorwadd, rai weti llyncu gas, rai a'u breecha yn fwlats i gyd, rai yn cerad o bothdi ar ffinna baccla. Ospital odd i ar

mencos i. A 'yn i gyd o achos fod Will o Berlin a'i ben weti mynd yn ry fawr idd i het.

Y noswath ni ma'r doctor yn dod, bachan eetha clyfar mynta nw: i fuws yn pippan ar dafota Dai a fianna, a fi gwnnws y'n calon ni pan wetws a—'You are gettin on all right my lads.'

'Thenkyw Ser,' mynta ni.

'We shall be convolutions in a week,' mynta Dai, yn ettrych fel sa fa weti llyncu dickshonary, a wnnw yn gwaseu diccyn ar i stwmog a.

'You will be convalescent, at least I ope so,' mynta'r doctor yn wyrthin nes odd i ribs a yn cnocco yn erbyn i giddil.

On, bachan clyfar odd a, a weti gneyd ryfaddota o ar odd a yn yr Ospital. Ma'r doctors yn glyfar. W i'n cofio darllan am cheppyn yn Llundan odd yn jofadd yn ddychrynlyd gyttta pôn yn i ben. I ath i gonsulto spessialist, i gas i eggamino yn eetha pyrticular.

'I am sorry,' mynta'r spessialist, 'You are in a bad way, Sir, I am afraid I will ave to take your brains out in ordar to make a clean job of it. I am afraid I will ave to brush some cob-webs away.'

'Right O,' mynta'r bloke, 'as long as you promise to cure me.'

'I'll do that,' mynta'r doctar.

I ddotws y doctor y boy ar y couch, a chympohir

odd a'n cyscu o dan effaith y gas. I dynnws y doctor i fenydd a mas, a i dotws a ar y ford yn barod i ddychra spring cleanin. Ma gnoc wrth ddrws y surjary, off a'r doctor, a mas y sefws a am bothdi cwartar awr. I ddath yn ol. Y mowcedd anwl! Odd y dyn weti cherad i, a weti gatal i fenydd ar ol ar y ford. Wel, i fu'r doctar jest mynd a chollad arno. On i gatws y secrat, a i ath i wilo am berchan y menydd ar yd streets Llundan. Y men bothdi wthnos ne racor, i spottws y bloke yn acos i'r Ouses of Parlamant. I weiddws,—

'Oi, oi, come ere mun, I ave got your brains on the table in my surjary.'

'All right,' mynta'r boy, yn ddiccon digonsarn, 'Keep em there: I shant want 'em any more, for I am now a Membar of Parlamant.'

Na'r story, on walla ma celwdd yw i, on ma lot o stwff i neyd gwirionadd yndi efyd, a jidgo o wrth anas rai o'r Membars sydd yn cal 400 y flwyddyn.

'For the past,' mynta un o nw yn Nhy y Cyffretin os diccyn bach yn ol, 'we may sum up everything in one sentence, the blunders of our politicians have been retrieved by the heroism of our aviators.'

Na Sysnag a diccyn o bolish arno on tefa?

Twt, twt, mlan a ni. Wmladd sy i fod nawr, a ma raid i Ni'n Doi ddyscu diccyn o sense i Will o Berlin,

cyn bo'r shwrna ddiwetha yn barod i fynd i'r screens.

I ddath yn amsar cysgu cymphir, on odd llawar i boor dab yn gronan gan i bôn. On sa chi'n clywad y crottesi—y nurses—yn wilia geira o gysur i gwnni'n calonna ni. Odd a'n drate wir ddyn!

Odd a'n worth talu am dickat am gal mynd miwn idd i clywad nw, odd ar mencos i. Odd na un,—wel—oni bai am Maggie Elen—itswn i ddim llawar cal onno'n wraig, a w i'n gwpod fod Dai dros i ben a'i glusta miwn cariad a i. Yr arcol, sa chi'n gweld gwynab Dai pan odd onno'n dod eebo.

'Dai,' myntwn i,—

Ffarwel i Mary Catherine dlos,

Ffarwel i Maggie Elen,—

'Cistal i ti stoppo cewcan ar y grottan.'

'Alla i ddim peedo, bachan,' myntai Dai. 'Ma'r criatur bach pert mor llawn o opath. W i'n cretu sa dyn yn cal i lifo yn i annar y byssa 'on yn gweyd,—  
'Cheer up, lad, you will soon be all right.'

'Gopath,' myntwn i. 'Na beth od yw a; fe sy'n catw'r byd ma gytta'i giddil: allweh chi ddim sponio beth yw a: rwpath idd i deemlo yw a. Ma Dai a finna a gofath y dewn ni nol yn fyw ar ol croppo locsis Will o Berlin. O ottin. On am Will, poor dab, wn i ddim beth i weyd o bothdi fa. W i'n ffeelu

gweld fod gan My Nabs opath am ddim on free board an lodgins yn Sant Elena,'

'Gopath,' mynta Dai, yn ishta yn i grys ar ochor y gwely. 'Gopath! Bachan, testyn i fyrddoni Gopath, rwpath i'r boys a'r gwallt i'r i fflashan i meddylia arno.'

'Ia figinta Dai,' myntwn i, 'on dyw beth wy ti yn i weyd ddim yn gneyd y mattar yn fwy gola.'

'Odd rwy fardd Sysnag yn gweyd am opath rwpath fel yn,—

'Ope springs eternal in the 'uman breast,  
Man nevar *is* but always *to be* blest.'

'Bachan,' myntwn i, 'rwpath tebyg i'r wara ny odd gyttā ni yn grots slawar dydd—Send the fool furthar—yw wna.'

I gyscon fel par o gôd.

Y bora wettyny i ffindas fod Dai weti cwnni o mlan i, odd a'n cerad o bothdi yn i slaps pan agoras i y'n lliced, a diccon awdd gwpođ ma gneyd pynnillion ar 'Opath' odd Dai. Ar ol breawas i geson fynd i ishta mas diccyn, a na pryđ torws y gân mas ar Dai fel rash y frech goch.

'W i weti bod yn stidio'n galad o ar y di-unas i Shoni,' mynta fa, 'Gopath sy'n elpu'r fam i shigglo'r cawall, i ofalu am y crottyn bach, idd i watoho fa nos a dydd an' so on. A fel y bydd a yn dod yn enach ma Gopath yn wispran wrth glust y fam y daw y babi yn ddyn dyfnyddiol—'



'Beth os ta merch fydd y babi,' myntwn i.

'Wy ti off o ar di ben Shoni,' mynta Dai, 'paid a wilia racor, machan bach i, os wy ti am gal ancarn beth yw Gopath, gryndo ma-

'G O P A T H.'

Beth yw Gopath? Babi bychan

Yn i gawall. Ble ma'r fam?

Yno'n dishgwl arno'n wyrthin,

Yn i gatw rag cal cam;

Beth yw Gopath? Beth mae'n deemlo,

Dishgwl ar y lliced nawr,—

Fel dwy seran yn dishgleero,—

Creta daw yn fachan mawr,

Beth yw Gopath? Dishgwl bachan

Ar y morwr yn mynd mas,

Yn i long i groesu'r morodd

Eb un scrap o ywyr las:

Ma y tonna fel mynydda,

Ma y gwynt yn wrni,—on'

Aiff i wraig sha thre yn appus,

Gopath sy yn llanw'i bron.

Beth yw Gopath? Bachan gwrol

Yn mynd lawr i dori glo,—

Tanad yno sy yn dicewdd

Nes y crynna bryn a bro:

Dishgwl ar y mynwod druan

Ar ben pwell. Ia, Gopath yw,

Ddath i wispran geira cysur,

Ac i weyd—"Ma'ch gwyr yn fyw."

Beth yw Gopath? Crottyn lysty  
 Ath i joino'r Welsh Brigade,  
 Ath i Ffrainc i gwrdd a'r Germans,  
 Daw a nol? Os neb a wed,  
 Yn y trenches ma fa'n wmladd,  
 Weti gyfro'i gyd a gwâd,  
 Gopath sy yn gweyd caiff bippan  
 Cympohir ar dy i dad.

Beth yw Gopath? Os dim ancam  
 Gan My Nabs,—Will o Berlin,  
 Peth tepycca—Jack-i-lantarn  
 Sy yn ewcan ar bob bryn:  
 Yna yw Gopath Bill y Kaiser,  
 Cystal iddo fynd sha thre,—  
 Ma'in "all up," aiff Dai a Shoni  
 I gloi "tap" i Opath e,

'Wel done Dai,' myntwn i. 'Wy ti weti cwnni'r blinds o ar y'n llicced i. Yr unig fai w i'n gâl yw di fo ti'n gofyn y cwestshwn—Beth yw Gopath,—yn ry amal.'

'Ma di edication di, Shoni, weti cal i escilisso,' mynta Dai. "Bachan, na style y 'beirdd newydd.' Pan ma'r chaps ma a line yn ry fyr, ma'r dodge ma gytta nw o ofyn y cwestshwn."

'Sa ti'n gneyd Englyn,' myntwn i, 'i fyssa yn diccyn o class,—short an' sweet—pultum in carvo, fel ma'r B.A.'s yn gweyd.'

'Wel,' mynta Dai, 'W i weti teemlo rwpeth od ar y'n chest i os diccyn; i gretas ar y start ma twtch o'r

insuggestion odd a, on nawr w i bron cretu ma englyn  
odd a yn treio ffindo'i i ffordd mas. Ma fa,—

### GOPATH.

Gopath yw rwpath roiff ryppydd,—o ddydd

I ddod ar ol dwetydd,—

"Angor" i gatw'r rengydd

Yn y ffôs,—ia, llicced Ffydd.

'Dai bach, myntwn i yn eetha gysseited, 'Wy ti'n  
gamstar ar bob short o fyrddoniath, i innilli di gatar  
cyn diwadd di ôs. Ma son am Opath yn y'n ela i i  
gofio am ladi fach ar un o stêmars y Mississippi yn  
America.'

'Beth o bothdi onno?' mynta Dai.

'Wel,' myntwn i, 'Storm ofnatw ar y Mississippi,  
pawb weti mynd i styrrics; y tyrrana yn ruo, y mellt  
yn fflashan, y gwynt yn roaro, a'r môr yn berwi fel  
twbin golchi: y llong yn dywnso fel sa collad arni;  
y plant bach yn screchan, y dynion a'r mynwoð yn  
ettrych yn wyllt; on,—odd y fenyw fach yn ryttag o  
un i'r nall,—

'Cheer up,' myntai i, 'it will soon be all right.'

On' gwath odd petha'n mynd, nes, o'r diwadd, i ath  
yr en gaptan i unan i anobeetho. Ma'r fenyw fach i  
lan atto fel shotshan,—

'Captan, captan,' mynta i, 'don't give up 'opin'.  
Look, look! There's a bit of blue up there.'

I drows yr en foy, a i ddishgwilws ar y fenyw fach  
odd mor llawn o Opath.

'Madam,' mynta fa, 'I know there is a bit of blue up there in the sky, but yscuse me, madam, we are not goin' that way until the boiler bursts.'

On gwella i Ni'n Doi. Ma Dai a phishyn o'i grôn off o ar i gose with, a w inna yn anatlu fel sa'r Brown Titus eb y ngatal i altogether.'

'If you are careful an don't get a chill,' mynta'r nurse, 'you will soon be effarvessant (ne rwppath o'r short). You are not goin to pop off this time.'

'Thenkyw Miss,' myntwn i. 'We 'ope to be singin' the duett—'All's well' soon.'

On bai i Dai fynd mas i ewcan gormod, i fyssa Ni'n Doi weti dychra welto diccyn ar Will cyn 'yn. I geson aros i'r twtch o inslammation gas Dai i glirio off. Wel, goo'bye i'r Ospital, a thenkyw fawr i bawb, y doctors a'r nurses, on, angofiwn ni ddim o'r Gas am dro. W i yn i ddeemlo fa nawr, fel sa chi'n gweyd, yn dod sha dreckshwn y trench! Ni'n Doi odd y cinta bron i dasto'r stwff, a i fuon yn eetha acos i'r boundry rwng y marw a'r byw. W i'n cofio cal gas gytta dentist wrth dinny dant, on, yr arcol, odd wnw rwpath fel wilbar wrth ochor trackshon injin miwn cymariath. I ddath ar y'n penna bron eb yn wpod. I etho i yn y ngrwmp i'r trench. W i'n cofio mod i'n shotto mreecha o bothdi, a i fi glywad llaish Dai yn gweiddu, 'Shoni, dera mas o na bachan.'

Shwd na laddws y stwff ni w i ddim yn gwpod

On i Ni'n Doi yn all right nawr, a'n gwinepa sha'r trenches, on yn ettrych diccyn yn felyn fel sa ni weti cal twtch o'r yallow jandars.

A nawr ta Will o Berlin a'r Crown Prince,—un o'r ddoi,—i fydd na wichlad fel swm lladd mochyn pan gorddiff Dai a Fi a'r racsach.

---

## Y BETWARYDD SHWRNA.

---

### "A'N GWINEPA SHA BERLIN."

**P**AN bo chi'n darllan yr 'eadin'—A'n gwinepa sha Berlin,—i chi'n barod i wispran—'Ottich spo!' Wisprwch chi beth wisprwch chi ma fa'n fact; ma'n gwinepa ni sha Berlin, a ôs dim troi yn ol i fod nes y bo ni'n landed yn y Red Cow, yn y street ma'r Sossinjers yn i galw yn Unter-den-Linten.

Ble o ni? Ia, ia, na'r cwestshwn. O, dod mas o'r Ospital o gwmpni y crottes!. Ia, ia. a ôs dim cwilydd arno ni i gyfadda fod diccyn o irath arno Ni'n Doi ar i ol nw. On' ble i ni? Ia, ia, na gwestshwn ma yn diccyn yn anodd roi attab straighaway. Ble i ni fel gwlad, ontefa? Na i chi yn i feddwl. Gydewch i ni fel gwlad gonsitro ticcyn. Ble i ni efyd? Ma'r

pishyn ma yn depyg dychrynlyd i 'Oli Pwnc.' Pwy yw'r 'efe' ma? mynta'r prygethwr.

'In three weeks.' mynta'r pappar na ma nw'n i alw fa yn John Bull. Ma rwpath mawr i ddicowdd miwn tair wthnos. Gobeetho fod a, ottw wir ddyn, wath licca Dai a Finna ddim i'r Germans neyd gwacar o Ni'n Doi. A gweyd y gwir, ma un dose o Gas a bothdi deg bwlat yn ddiicon i ddyn cyffretin.

Ma odd Will o Berlin yn weyd yn ol pappra Germany, a ma farn cheppyn o Gymro. Wrth gwrs dyw'r iaith ddim mor glassical a iaith Ni'n Doi, on' cistal i ddoti fa miwn fel y dath a mas o'r ffwrn:—

#### Y KAISER YW'R MESSIAH!

'Fel engraifft o wallgofrwydd Germani yn y rhyfel bresenol nid oes dim mwy tarawiadol na'r dull yn yr hwn yr edrychir gan bapurau Germani ar y rhyfel fel un sanctaidd, ar y Kaiser fel danfonedig Duw, ac ar yr erchyllderau yn Belgium a Ffrainc, fel gwaith y Kaiser yn cyflawni ewyllys Duw! Wele engreiffiau o'r rhyfyg gwallgof yma.

Dywedir i'r Kaiser fyned i Synagog yr Iuddewon yn Lodz. Yno ymaflodd yn Rhol y Gyfraith a gedwir yn mhob Synagog, ac wedi ei agor, trodd at y gynulleidfa gan ddywedyd wrthynt,—

'Myfi yw y Messiah. Danfonwyd fi gan Dduw i'ch achub.'

C

Fe gofir iddo wrth anerch ei fyddin ddweyd,—

‘Yspryd yr Arglwydd a ddisgynodd arnaf am mai myfi yw Ymerawdwr Germani. Myfi yw yr offeryn yn llaw y Goruchaf: Ei gledd a'i gynrychiolydd Eif ydwyf fi! Gwae y neb a wrthwyneba fy ewyllys.’

Mewn papyr wythnosol yn Germani cafwyd a ganlyn,—

‘Pan gyrhaedda llu eneidiau milwyr dewr Germani a laddwyd yn y rhyfel hwn i'r Nefoedd, ad-unir hwynt a Bismark, Moltke, a'r dewrion gynt. Yna cyfyd yr Hen Fritz oddiar ei orseddfaine aur, a seinir yr udgyrn aur, a bydd holl lu y nefoedd yn ‘present arms’ i'r dewrion hyn ar eu hymddangosiad yn y nef.’

Gellid deall Mahometaniaid yn dysgu ffwlbri ynfyd o'r fath, ond buasai yn anghredadwy am Gristionogion onibai ei fod yn argraffedig mewn du a gwyn.

‘Wel,’ mynta Dai, a'i ben ar acor, ‘na beth fydd turn out, bachan. Cystal ordro Mabon's Day i gal gweld y carda ma yn cwrdd a'u giddil.’

‘Eisht Dai,’ myntwn i, a arswd yn crippan dros ascwrn y ngefan i, ‘Eisht bachan.’

‘Wel, eisht ne beedo,’ mynta Dai, ‘ma Will o Berlin yn coeddu i fod a'n Gristion.’

‘Cristion myn yffryd i,’ myntwn i, ‘os ta Cristion yw Will o Berlin w i'n mynd i starto clwb newydd. Enw'r clwb fydd—‘The Anciant Ordar of Rapschal-

iwns.' Chaiff Will a'i Fab, na neb o'r breed, ddim qualifio i fod yn fembars, wath i fydd y clwb yn ry rrespectable i dderbyn neb o'r short. Sa well da fi ddoti Charles Peace a Crippyn yn eilota ar men-cos i.'

'Ble i ni ytto?' mynta Dai, yn wthi mwg mas trw'i drwyn, 'Ble i ni fel gwlad?'

'Yn eetha saf allu fentro, slow an' shure yw i. On' beth o ni'n gleppran o bothdi fa?'

'O bothdi Will a'r nefodd,' mynta Dai. 'On, ettrych ma Shoni, wy ti'n gwpoð beth w i'n gretu, wel, y bydd rai o'r cythreuliaid yn y signal hox yn weeto i switcho Will 'off the main line' er mwyn iddo fynd at i gendar y jafol.'

'Bachan, Dai,' myntwn i, 'Wy ti yn ry ffrath, wyt wir ddyn!'

Ta-ran-ta-ra! Ta-ran-ta-ra!

Na'r cornats yn roi arwdd, a raid i Ni'n Doi atal rwy rigmaroles o bothti Will a'i blans i gwrdd a'i gendar yn llonydd, a symyd mlan gyttar boys i ddreckshwn y trenches. Mlan a ni i'r stashion, a dim on' swn consarteenas a mouth organs odd i glywad. Ma lot miwn miwsic i gwenni calon dyn, ôs wir ddyn, on' w i fawr o warwr, dim byd i fraggo o bothdi fa, on' sa cistadleath miwn wara giwga w i'n cretu y neswn i struggle a'r venjance i ddod mas yn nillwr. Giwga yw'n ffansi i, a ma giwga yn gofyn



diccyn o gymshwn idd i wara, a doti diccyn o sense yndo.

W i'n cofio yn y --, pan odd armonians yn dychra pocan i penna i miwn i'r tai cwrdda, odd na lot o fechgyn a chrottesi miwn cappel a want cal un i elpu'r canu, on' odd doi ne dri o'r 'ên chaps yn gweyd nag odd dim eesha yrdigyrdi yn Nhy Dduw.

Gweyd ne beedo, i brynson armonian eb yn wpod i'r 'ên chaps, a i gas i smyglo i'r tÿ cwrdd yn ddishtaw bach nos Satwrn. I ddath bora dy' Shul, a i ellweh fentro fod yr 'ên foys yn barod i neyd rwpeth cryfach na pheswech pan glywso nw'r sŵn diarth. Wetso nw ddim, odd yr 'ên foys yn depyg i berrot y sailor—'not a great speaker but a terrible thinker.'

I ddath nos Lun, nos y Cwrdd Gweddi. I ofynws y gwinitog i Dafydd Jones i ddychra'r cwrdd.

I ballws.

'Dewch chi, Shincyn Evan i roi gair mas i ganu.'

'Na, na,' mynta Shincyn, a'i wynab fel gwynab twrch deiar—'Na na! Gofynwech i wna, yr yrdigyrdi na, i ddychra'r cwrdd; i ganws yn y'n lle i ddo, a chan i fod a'n champion ar ganu, gwetwech wrtho fa am ddychra'r cwrdd: walla gweddi-iff a yn y'n lle i eno.'

Sdim use bod fforna, ôs a? Ma miwsic yn dda, a sdim ryfadd fod y showdars yn ela sha thre yn becan am rwy short o instrumant.

Ma ni yn y train, a off a ni i ———. Odd na ladi  
a diceyn o dwrch yndi yn ishta yn y cornal, a ma Dai  
yn ddiccon ffrath i dafod i wilia a rwy un.

'Bon jour,' mynta Dai yn Ffrench.

'Dim attab o wrth y ladi.

'Ich Dien,' mynta Dai yn German.

Odd y ladi fel post elwyd.

'Shwd i chi eddi,' mynta Dai.

Fwflodd i ddim.

'Wax-works, myn yffryd i,' mynta Dai. 'Gad i'n  
llonydd a i gymrwn neppyn.' I gygson.

I greiddson y 'Base' cympohir a diccon awdd  
gwpod ny wrth swm y shells a'r fireworks.

'Ma ni, Shoni,' mynta Dai. 'Ma ni nol yn ffôs y  
gwaith unwath ytto, a diceyn o waith i gliro'r rwb-  
betch yn y'n aros ni, diccon tepyg, wath rwbetch  
yw'r Germans pob coppa o oni nw.'

Pwy ddath i shigglo deelo a ni on Ted, a na beth  
odd gysseitment.

'Shwd i chi boys?' mynta fa.

'First class,' mynta Dai, 'a wyt titha, Ted, yn  
ettrych yn nêt bachan!'

'Ottw, ottw,' mynta Ted, 'on dyw ettrych ddim  
yn insurance fod dyn yn all right wastod. Na gwest-  
shwn My Nabs yn amal, mynta'r pappra; ma fa'n  
sefyll o flan yr officars, on' yn ddiccon pell o'r  
trenches, yn lletu i drad a golwg ffyrs arno, a fel sa

fa'n gofyn,—‘Ow do I look?’ ‘Unermesslich!’ mynta'r officars. ‘Immense!’ ‘Das glaube ich wohl,’ mynta Will. ‘I should think so.’

‘Bachan,’ myntwn i, ‘wy ti Ted weti bod yn stidio Mothar Seigel efyd.’

‘Nacw nacw,’ mynta Ted, ‘on w i weti dala cymant o'r Sossinjers nes w i'n gallu jabbran lot o German erbyn 'yn.’

‘Wel,’ mynta Dai, ‘sticca ati Ted, a gobeetho y bydd gen ti ddiicon o'r iaith i ordro bobo lewishyn yn y Red Cow pan ewn ni miwn i Berlin.’

‘Wy ti weti'n ela i gofio bachan,’ myntwn i, ‘am Bob brawd Mari merch Pegi, pan odd e a Ianto Bratttish a bachan diarth yn mynd sha thre o ffest clwb y Black Lion.’

‘Beth yw'r anas?’ mynta Dai.

‘Wel, odd y tri,’ myntwn i, ‘yn cario full cargo, a'r streeffan yn mynd yn fwy pôth bob cam. Pan ddetho nw o flan ty Bob ma i yn randiboo ryngo fe a'r bachan diarth. Lawr a'r cotta, a ma i off. Y clatcho gora glappws Ianto i liced arno ariol. Ar ol 'roun number one,' ma Bob yn gofyn i Ianto:—‘Shwd w i'n dishgwl bachan?’ mynta fa.

‘Dishgwl!’ mynta Ianto. ‘Wy ti'n dishgwl fel llew, wy ti fwy tepyg i lew bob ergyd. Wad mlan.’

Gytta'r gair ma drws y ty yn fflyan yn acor, a Jane gwraig Bob, yn needo i'r street.

'Beth sy'n bod?' mynta i. 'Dera ma'r ffwl.'  
 'Cera nol Jane,' mynta Bob, a'r gwad yn spoutan  
 o'i drwyn a. 'Cera nol o'r ffor', ma lanto yn gweyd  
 y mod i'n dishgwl fel llew.'

'Llew,' mynta Jane, yn troi i ddishgwl ar lanto yn  
 eetha werw. 'Llew! Ble gwelso ti lew ariod lanto?'

'Yn shafts cart y boy na sy'n gwyrthu cocs Cydweli,'  
 mynta lanto yn nessid draw o gyrradd dwrna Jane.

'Bachan,' mynta Jane, 'mwlsyn odd wnnw.'

'Mwlsyn ne beedo,' mynta lanto, 'rwpeth tepyg i  
 wnnw ma Bob yn ettrych ta beth.'

'Sdim on son am deno chi'ch Doi yn y camps a'r  
 trenches,' mynta Ted. 'I chi'n siwr o gwppwl o  
 lithrenna ar ol y'ch enwa. Ottich wir ddyn. I chi'n  
 dishgwl fel sa chi ddim yn cretu.'

'Right O, Lifftenant,' mynta Dai. 'i fyssat yn gapo  
 di unan sa ti weti llineu cymant o gas a Ni'n Doi.  
 I gretas i y byssa raid cwenni brattish yn stwmog  
 Shoni i gal troi'r ar.'

'Do ar mencos i,' myntwn i. 'O ni'n pwffan fel  
 injin fach Crosha, onno o ni'n arfadd canu am deni  
 pan o ni'n grots. On, odd gopath gyttta ni am y  
 dyfotol, wath sa'r doctors a'r nurses yn ffeelu'n  
 gwella ni, a ffeelu elirio'r gas mas o'n institutions ni,  
 o ni weti gneyd y'n meddwl lan i ffixo Dai a Finna  
 miwn câ fel gas-works i roi diccyn o ola i Dinas a  
 Yetybompren, an so on.'

'Na ffortshwn ar unwath,' mynta Ted yn wyrthin. 'But passin' all jokes aside boys, i chi'ch doi yn landed. Ma D.C.M. yn y'ch weeto chi.'

'Beth yw D.C.M.?' myntwn i. 'Rwpath i fyttta?'

'Bachan,' mynta Dai, yn lletu frest, 'ma'n diccon awdd sponio na. D.C.M. means Don't Care Myn-yffryd i. A na hanes y British showdars--dонт care for nobody, i scepwn pob German, Austrian, Bulgarian, a Thwrk, i golyw miwn ticcyn.'

'Dai,' mynta Ted, 'ma di exclamation di o D.C.M. yn batant wir ddyn. Ma rwpath felna yn y'n ela i i gofio am Myrged Pen Steps pan gas i lethyr i weyd fod Dai i mab weti cal y D.S.O. I ryttws a'r lethyr i dy Mrs. Murphy y drws nesa. Un o blant Mari odd onno ti'n gwpod.'

'Avourneen!' mynta'r Irish ooman. 'I'll brake the news to ye tinderly; poor Dai 'as been kilt entoirley. D.S.O. manes—Dai Shot Over.'

Ma Myrged yn dychra weppan, a off a i sha thre a'i ffetog ar i llicced.

Y bora wettyny ma lethyr arall yn dod. Odd wn yn gweyd fod Dai weti cal y D.C.M. Yr un peth a chi'ch doi. Off a Myrged i dy Mrs. Murphy yr Irish ooman, a gwynab mor wynnad a shale; odd i'n siwr o fod yn cretu ma *bill* yr undertaker am gladdu Dai odd a. I ddotws Mrs. Murphy y spectals ar i llicced.

'An' throth an' ids grand news ye'll be gettin'. Ids

thru for ye. D.C.M.! D'ye hear that? It manes  
—Dai Completely Mendid.'

W i ddim yn gwpoð os yfson nw iechyd da ne beedo,  
on i ath Myrgeð sha'r ty a'i phen yn yr âr, yn shigglo  
i chwt fel pawen.

'I chi'n gwpoð y latest news am My Nabs spo?  
Ma nw'n gweyd fod yr ên geelog yn treio cal excus i  
shotto'r spwnge lan.'

'Otti fa?' mynta Dai. 'Otti fa'n cinnig tylera?'

'W i ddim yn gwpoð,' mynta Ted.

'Tylera ne beedo,' myntwn i, 'dyw Will ddim y  
short ora i neyd bargan ag e. Os dim proffit i ddelo  
a My Nabs. Cystal i ni roi tip iddo fa a gweyd—Give  
up My Nabs an' book for Sant Elena; we are not  
goin to ave any dealins with you an your short myn  
yffryd i.'

'Bachan,' mynta Dai, 'Ma Sysnag gytta ti fel raffa  
winwns.'

Ma Scout yn dod a'i anal yn i ddwrn! Beth yw i  
necas a? Wel, ma fa, fel odd y writin ar y pappar—

'You are ordered to take over the trenches  
from the exhausted infantry. The officar  
(and two men) must go up to-night, and learn  
his way about, to show his squadron to their  
place to-morrow night.'

Salute, a off a'r Scout.

'Wel, comrades in arms,' mynta Ted, 'ma jobbin i  
dri,—Lifftenant Ted a Ni'n Doi.

## Y BIMFAD SHWRNA.

---

### 'YN NGENOL Y PANARMONIAN ?

I CHFN gwpod beth yw Panarmonian spo ? Ma fa'n air diccon mawr i alw 'chi' arno. Panarmonian yw poppath yn gymyshg, poppath yn gawl i gyd. Wel, ôs dim sponio arno, raid i chi fod yn i genol a cyn y dewch chi idd i ddiall a yn iawn.

Myddylwch y'ch bod chi miwn gwaith arn, ne waith tin, y rols yn troi, yr injins yn pwffan, y stêm yn weepan, y chains yn ratlan, y gweethwrs yn gweiddu, a so on. Na amcan i chi beth yw Panarmonian.

Myddylwch ytto y'ch bod chi yn mynd am dro i dŷ Will mab Ann, ar ol i Will ddod sha thre o'r clwb a weti ifad i ormotadd. Be sy' no ? Mari i wraig a black eye, yn screchan iwb-wb, y ford wynab i warad, y llestri yn yfflon jibbadares, y gath weti needo i ben y shelfadressar, a'r babi annar ffor' dan grât. Wel, na dwtch i chi o Banarmonian.

Ottich chi yn i ddiall a nawr ? Walla cystal shapo pittwr arall. Myddylwch am Will a'i fab pan y ca nw i cornelu, a rwwpath fel cdd y bardd Sysnag yn i ddishgrifo yn dod idd i anas nw,—

'Cannon to right of them,  
Cannon to left of them,  
Cannon in front of them,  
Volley'd and thundered.'

Dishgwilwch ar Will a'i showdwrs yn ceesho dod mas o'r ring! yn treio roi ergyd i'r Ffrench; yn nesa yn cinnig poad i Ni; yn ryttag i Roumania, yn nesid i roi leg-up i'r Twrc; yn pippan dros ysgwydda'r Alps i gal gweld shwd ma'r Ightalians yn gweetho; yn catw lliccad ar y Rwssians, a——. Wel, na Will a'i foys miwn rwpeth tepycca'r byd i beth ma nw yn i alw fa yn Banarmonian. Ettrych i'r dickshonary, Dai, i gal gweld os w i'n acos a bod yn right. Starta bothdi'r gair 'Pan.'

I bippws Dai i'r dickshonary.

'Ma ma air yn dychra a Pan,' mynta Dai.

'Beth yw a?' myntwn i yn consitro.

'Pandemonium,' mynta Dai, 'Dyw'r spelian ddim yn gyssact fel ma fa gytta ti, Shoni.'

'Cer mlan,' myntwn i, 'mattar o dast yw spelian yn amal. Ma'r gair na yn ddiicon acos. Beth yw i feddwl a?'

'Pandemonium—the infernal regions.'

'Ia, ia,' myntwn i 'diccyn yn gryf yw'r yshtyr, on' gwed mlan.'

'Any noisy or disorderly place,' mynta Dai.



'O ni'n eetha right, Dai,' myntwn i, 'pan wetas i am Banarmonian, wath ma gwaith arn ne waith tin yn ddiicon 'noisy,' a odd piccil ty Will mab Ann yn ddiicon 'disorderly,' a ma pappra'r wlad weti speko lodgins i Will an' Co. yn yr address wetast ti ar y dychra. Thenkyw i My Nabs, ma fa weti gneyd Ewrop yn Banormanian.'

I bacson y'n consarn i lan, Ni'n Doi a Lifftenant Ted, a off a ni. Odd y'n ffor' ni trw dre yn llosci fel ffwrnas, a'r shells fel cawota o law tyrana yn weepan dros y'n penna ni. Dim neb idd i weld on y labrars yn ceebo ffor' trw'r rwbetch er mwyn i'r cenyns gal ewl rydd i fynd i'r ffront.

On' mlan a'r anas. I ethon trw'r dre, y tân, a'r mwg yn eetha saff, a straight-away a ni i'r Infantry Brigade Eadquartars. Dyn elpo'r ewl! Odd i weti cal i retyg gytta shrapnel, on i ddethon o 'yd i cellar, a no odd yr officars yn weeto i roi tips i ni. Odd no ddiicon o le i orweddach, taligrafft a thelephone. Myn depyg fod German spies yn tori'r wires yn amal, on i gas un o'r atar i ddala, a fuws a ddim yn i'r cyn matal a'r byd ma. Ma'r guides yn starto, a off a Ni'n Doi a Lifftenant Ted.

On' yr arcol! I gymsynws y guides y ffor', a fi geson yn unen yn cerad nol i ddannadd un o'n trenches ni. Ma challenge! I weiddws un o'r guides yn ddiicon uchaf trw lwe cyn i'n boys ni dano ne

fyssa gan Mishtir waith doti mwrnin' roun i lun Ni'n Doi. Sôn am narrow shave!

Myn depyg fod y Sossinjers yn ffond o neyd tricks o'r short. Y ddath tri o nw yr wthnos diwetha yn galw y Cwmpni a'r Sarjant Major wrth i enwa.

'Dont shoot,' mynta'r blaggards, 'We are a party from the —— Company.'

I geson gawad o fwlats jest mewn pryd.

A gweyd y gwir i glywson y'n enwa ni—Ni'n Doi,—yn cal i galw, un noswath ys diccyn yn ol, o drench bothdi annar canllath off.

'Das Paar! Das Paar!' mynta'r llaish.

'Da yn spâr?' mynta Dai yn ol. 'Bachan, Shoni, allu fentro fod y sossinjers yn cretu'n bod Ni'n Doi yn catw walk lâth. I attepa'r bloke.'

'No mun,' mynta Dai, 'Ni'n Doi dont keep cows.'

Diccyn cyn 'yn odd Dai weti cal gafal yn scrwff gwddwg German odd weti bod yn ddiccon ecar i grippan i dop y'n trench ni. Odd a nawr yn gorwadd yn y gob yn eetha dishtaw.

'Oi Sossinjer, or wotevar your name is,' mynta Dai.

'Von Donop,' mynta'r German.

'Ay, ay, I know you are 'done up,' mynta Dai, 'but wot is Das Paar?'

'Das Paar? mynta'r prisnar, 'it means—The Pair.'

'Y Pâr, ti'n gweld Shoni—Ni'n Doi,' mynta Dai.

I fu Dai yn cwnsela a'r sossinjer diccyn on o'r diwadd ma fa'n gweiddu—

'Unserer Zwei—Two of us.'

A na beth od i fu dishtawrwdd yn trenches y Germans trw'r nos, i geson ofan pan ddetho nw i wpod fod Dai Jones a Shoni Morgan mor acos. Ma odd yn pappra Germany wettyny,—

'Nothing to report from the West Front.....'

I allwch chi gesso pam, spo.

I lices i y gair gas Dai afal yndo yn y dickshonary, y gair Pandemonium. I netho ginnig ar neyd yr 'yn ma'r Sais yn i alw yn acrostic. Ma fa, a i fu Mishtir yn polisho diccyn ar y Gwmrag:—

#### PANDEMONIUM.

P rwssia drahausfalch a heriodd y bydoedd ;  
 A wstria hunanol atebodd y gadfloedd ;  
 N ero oedd gysgod,—y Kaiser yw'r sylwedd,—  
 D awnsia i seiniau ei grwth o ddigasedd :  
 E wrop, i'w sylfaen, ysgydwyd yn sydyn,—  
 M alais a bwriad drwg greodd ddaeargryn,  
 O nd, o eithafoedd y Deyrnas Brydeinig  
 N efoedd sy'n adsain llef gwreng a boneddig,—  
 'I 'r lan a'r Faner ! Gwel byd hi'n cyhwfan,  
 U nwn Brydeinwyr,—pob gelyn, pob German,  
 M ynwn ddarostwng o heddyw allan.'

On mlan a rippo'r top a thori pwccins. Gorffod i Ni'n Doi a Lifftenant Ted aros gytta'r Infantry nes bod y nos yn tynu'r blinds lawr dros y ffenestri. Na dwtch bach eetha byrddonol on tefa. Rhaid lwo ma Dai yw'r bachan sy yn byrddoni, on ma bod yn ngwmpni bardd, mynta nw, yn depyg i lodgo miwn tŷ sy a frech y ieir ne'r mwmps yndo, ma nw gyd yn getchin, a w inna yn swffro o'r complaint weetha.'

Fel y canws Islwyn, i ddath—'Y nos a'i thorf o dystion.' Do, do, i ddath y nos cympohir, a'r sêrs fel llicced angylion yn pippo lawr arno ni (na dwtch o'r ffevar), a ma Ni'n Doi yn dychra ryttag wrth gwt Ted fel milgi Will Ty Gwyn yn cwrso sewarnog, a amall i fwletsan yn weepan eebo'n penna ni, on i safson yn noted o dda. On peth od yw ryttag yn y nos! Sdim guess da chi ble i chi'n doti'ch trad, na ble i chi'n mynd, a chympohir ma Dai blwnsh ar i ben i nant fach.

I ceson a mas, on odd golwg chêp arno, yn ryttag o ddwr. On dwr ne beedo ma fflashad o'r fyrddoniath berta glywsoch chi ariod yn dod mas. I roison y necas i'r officar, a pan o ni'n cal spel cyn mynd nol i newid shift a'r Infantry, a'n aros i ddillad Dai i sychu, ma'r bardd Conundrum yn i rolan i mas. I chi gyd yn gwpod na chas Dai ddim o'r enw byrddonol 'Conundrum' yn ol Brain a Defed Beirdd Ynys

Pryttan, on dyw e a finna ddim yn eeto cocsen am  
'Frain a Defed.' Ottin ni Dai?

'Nacun myn yffryd i,' mynta Dai, 'fel y gwetws y  
bardd o'r Ynysddu,—

'Rhowch i hon dragwyddol heol.'

Ma i'n câl ewl rydd trw fennydd D. Conundrum  
Jones. Ma'r pishyn yn y mesura câth.

#### ETTRYCH Y MLAN.

I Ni'n Doi yn dal yn dÿn,—i ryttag,

Wir wy' ti fel crottyn ;

Cewn sossinjers nêt wetyn

A 'Bara Lawr' yn Berlin.

Am blwnsh w i ddim yn grwnshan,—o nacw

Mae'n 'neck or nout' bachan,

W i ar y watch i roi clatchan

I Will a'i Fab gwela i fan.

I ddysews Dai y gair 'nout' gyda'r Bristolians yn  
pwll Scotch. Ma'r englyn nesa yn doddetig iawn.  
Ma fa'n ffansio i fod a yn palas Will o Berlin.

An' Will I will thrill all through,—o' arcol

Na ercan fydd wnnw ;

'They're Das Paar taw ni marw

Run, do boys 'ere's a randiboo !'

W i'n wyrthin, alla i 'elp wrtho,—y rows

A'r rasis fydd yno !

An' I spec gan Ni'n Doi spo

Gaiff y Black 'wn i daelo.

'Lawr a'r cledd! A oes 'eddweh? Now Will  
 No ollicks on' lw-wch,'  
 Weta i—Yr en wtwch  
 A'i drâd gan wâd yn drwch.  
 Pob Ger-man fydd dan y dwr,—a Will fydd  
 Yn ela fel wandrwr;  
 On' 'no go' fydd ran y gwr  
 O 'yn i mas ta i neyd mwstwr,

I ethon yn ol cyn dydd i roi spel i'r boys, a i fuon yn y trenches am dri dwyrnod. Y tryttydd bora i gâs Dai bishyn o'i wefus off, a os na ofaliff a, arno i ofan bydd raid cal teelwr i sticho Dai at i giddil cyn y diwadd.

'Der di Will o Berlin,' mynta fa, 'ma lot o betha gytta ni i squaro lan rwy ddiwetydd, i gai di wpod y chaptar an' verse bachan main.'

'Twt,' myntwn i, yn sychu'r gwâd o ar wefus Dai, 'Os cwrddi di a Will y fe fydd ira'i big allu fentro.'

'I fydd na lot o gwnni 'ên grach pan y cwrddwn i,' mynta Dai, 'O bydd, Shoni.'

'Bachan, wy ti'n ela i i gofio am stori,' myntwn i, yn ceesho coolo diceyn ar dempar Dai.

'Beth yw'r stori, Shoni,' mynta Dai; yn baddo'i wefus miwn pwlllyn o ddwr yn y trench.

'Ma i, Dai; stori am Twm Ty Top. I ath Twm Ty Top i'r byd arall, diccon tepyg ma miwn breuddwd, a fi gnocws y drws. Ma Petr yn acor.

D

'Pwy sy ma?' mynta Petr.

'Tomos Evans, No. 17, Queen Street ——, ne fel ma nw yn y napod i—Twm Ty Top,' mynta Twm.

'O,' mynta Petr, 'Ma arno i ofan sdim lle ma i chi.'

'Pam?' mynta Twm yn eetha werw. 'Pam ny?'

'I ni'n gwpod diccyn gormod o'ch annas chi ma, Tomos,' mynta Petr.

'Ottich chi?' mynta Tom yn cnoi i wefus. 'W inna yn gwpod rwpeth o'ch annas chitha, Petr.'

'Off a chi, ôs dim amsar i wasto ma,' mynta Petr, 'off a chi.'

'O,' mynta Twm yn starto off, 'Dim amsar? Wel—Cock-a-doodle-do.'

'Der ma, der ma,' mynta Petr, 'Sdim eesha cwnni ên grach; miwn a ti!'

A miwn, mynta'r anas, yr ath Twm Ty Top. Ma nw'n gweyd, ta beth, na cheso nw ddim clip ar Twm yn Queen Street ar ol 'yn, on' ma rai yn cretu ma newid o'r steam coal i'r 'ouse coal nath a, ne i fod a'n clascu death club. Cystal i ninna atal Will yn llonydd ar ol i ddala fa, a pheedo starto cwnni 'ên grach.

'All is fair in love an' war,' mynta Dai, yn ettrych mor ddôth a pherrot y captan. 'Os yw Will yn wara tricks, y'n bisnas ni yw wara tricks a Will.'

'Ma gwanol farna,' myntwn i, 'Ma rai dynon yn cretu ma bod yn dynnar a Will yw dyletswdd Cristionocion; i ladd a a charadicerwdd.'

'H'm,' mynta Dai, 'Ma rwpath felna yn depyg i'r cure for toothache; ta faint rwbi di o'r ointmant ma'r ddannodd yn para. Y fact o ge, Shoni, sa ti'n berwi Will miwn caradicerwdd Will fydd a o 'yd. Na, Shoni, yr 'ên style i fi ar mencos i—gwefus am wefus, lliccad am lliccad, a dant am ddant.'

'Eisht!' myntwn i, 'Eisht! Ma swm mandral a raw yn acos! Beth sy 'ma? W i'n cretu fod y sossinjers yn ceebo undergroun' passage shag ato ni.'

I randawson. Yr arcol oddi y swm yn dod yn nes!

'Slippa naill ochor Dai,' myntwn i. 'I watcha i yr ochor ma, a chatw ditha di lliced yn acor yr ochor na. Ma'r gweethwrs jest cal twll.'

Na netho ni.

'Mum is the word,' myntwn i wrth Dai, 'Ergyd fel sledge ar gôpyn y cinta; i gymra i numbar two, an' so on.'

Ma lwmpin o glai yn rolan wrth drad Dai, a chympohir ma ben squâr un o bantrars Will yn pocan mâs. Lawr y dath tainmad o bost elwyd ar i ben a, i gitchws Dai yn i golar a, a mas a ge.



'Number One,' mynta Dai yn wispran.

'Numbar Two,' myntwn inna, yn roi weltan i ben y German nesa, a mas cas a ddod.

Ma laish o'r tu fiwn yn gweyd,—

'Hor auf, stop!'

'Rough ne beedo,' mynta Dai, 'der mlan bachan diarth.' 'Och, och.'

Wir ddyn ma numbar three yn gwan i drwyn i'r golwg, i cas i nes bo'r underground passage yn ecco, a slego buo ni nes bo'n breecha ni yn binna bach i gyd. On i ddath yn 'stop tap' ar welto Germans, on cyn yny odd gytta ni naw o rapscaliwns yn gorwadd fel scatan ar weelod y trench.

'Och, och!' mynta Dai yn wyrthin, 'Ma durn out eetha respectable. Wad mlan Shoni os daw racor.'

Tacla ecar yw'r Sossinjers; ma nw'n cretu ma dim on' nw sy'n gwpod poppath. Walla bod nw'n gwpod diccyn, on am shinko pwll, ne ddrivo eadin' galad, ma boys Cwm Rhondda yn siwr o fod yn fwy o gamstars na nw ar mencos i. Os ma dan ddeiar ma'r wmladd i fod, cystal i Will shotto'r spwnge lan, i naiff Dai a Finna avoc ar y Sossinjers miwn shiffad. Rwpath od yw 'Unan.' I glywas englyn pan o ni'n grottyn yn dishgrifo Unan. Islwyn wetws yr englyn wrth Mishtir, on prygethwr Baptist i gwetws a

wrth Islwyn. Englyn am ddoi fleenor a diccyn o unan yndi nw yw a. Ma fa:

Shon Matthew sy'n ymwthio—am y blaen  
Y mae blys mawr arno,—  
A Shon Ifan sy'n nofio,  
Ynddo'i hun mae i nefoedd o.

Na gystal ffotigraft o Will o Berlin yn y line ddiwetha na a gas i dynu ariod,

'Ynddo'i hun mae i nefoedd o.'

I ddath un o'r blokes idd i unan cympohir.

'Merci, merci,' mynta fa, yn staran arno Ni'n Doi.

'Merci myn yffryd i,' mynta Dai. 'Gâd dy lap, ne i fydd dy wynab di acha wew miwn wincad. Merci efa? On bai am di short di, a Will o Berlin, i fyssa Shoni a fi yn eetha apus yn dala mackral yn Pwll-gweelod, a wettyny yn ishta yn gomposed yn cal smoke yn parlwr bach y — (sdim o'r censor yn folon i ri weyd yr address). Merci ar mencos i!'

I gwnnws Dai y polyn i roi 'finishin' stroke' iddo on' trw lwc i ddath officar eebo ar y pryd.

'Olo!' mynta fa. 'Wot ave you got 'ere?'

'Nine Sossinjers, Ser,' mynta Dai, yn eetha civil.

I wyrthinws yr officar a i wetws,—

'I see. Get the stretchers. We'll ave to send you

two to Palestine or Mesopotamia; at this rate there  
 ont be a German left to fight with. Well done  
 you gallant Welshmen.'

I garson y scrwff i'r ospital, a odd peth netho Ni'n  
 Doi weti ddoti lawr in black an' white yn bockat  
 book yr officar. Na apus o ni, yn wilia, yn smoko,  
 yn ettrych nol ar rwrpath weti neyd. Cofiwch chi ma  
 tymlata gen-u-ine yn mrest dyn pan fydd a'n gwpod  
 am rwrpath gas i ddychra weti cal i gwppla, a finta  
 yn cyrnoi i dwls i gal matal a'r gwaith am y dydd.

'Somethin' attempted, somethin' done,  
 'As earned a night's repose,'

mynta Longfellow, a ma Shoni a Fi yn barod i weyd  
 'You are right bachan diarth.'

'Wel,' mynta Dai, 'Na naw German yn llai i dreio  
 lando yn Mryttan.'

'Ma naw o'r 'baw' ar ben,  
 A tolcog yw pob talcen.'

## Y WECHFAD SHWRNA.

---

‘SLEEPING PILLS AN’ SO ON.’

**G**YTTA bod Dai yn roi ffinishin’ stroke i’r  
mesura câth ma laish yn wispran yn Sysnag.  
Ma beth wetws yr officar,—

‘You two cannot be spared from the trench for a  
while: I need not tell you to be wide awake.’

I ddishgwilws Dai arno i, a i drychas i ar Dai.  
Wetwd dim, on’ odd drychiad Ni’n Doi yn wilia’n  
uchal. Odd, odd. Short o wireless taligrafft odd y  
message odd yn fflashan mâs o’n llicced ni—‘Na  
gompliment on tefa.’

I geson ordars i aros yn y trench ‘yd dri o’r gloch  
y bora. Pan odd y clock yn taro tri,—wrth gwrs  
byrddoniath yw wna, wath ôs dim clocks yn y  
trenches—ma ni’n dychra’r attack. Wiw! Ma’r can-  
nons yn wara ar y barbed wire am gwartar awr.  
Wetyunny awr o shello ar drenches bleena’r Sossin-  
jers; awr ytto ar y second line. Ma dorchi llewish  
ar ôl ‘yn.

‘Rush the trenches,’ mynta’r officar.

Ma’r drôd ora mlan! Anodd dishgrefo beth jof-

eddson ni am gannodd o latheidi ; anodd gweyd sawl un o'n boys ni gwmpws yn farw ceg. On' odd dim stop i fod ; mlan a ni fel shwrna o ddrams llawn yn ryttag ar wyllt lawr i'r incline ar ol i'r râff dori. Mlân a ni ! O ni bob un weti werwi ; a fi greiddson y trench cinta.

Odd bothdi iccan o ni yn cario bombs, odd gan Ni'n Doi bobo ddeg—deg pilsan mynta Dai, rwwpath alla chi i galw yn 'sleepin' pills.' Pan o ni bothdi annar cleero'r trenches blân, i welson fflag wen yn shigglo yn y gwynt uwchben yr ail drench.

'Bachan,' mynta Dai,' 'ma i siwr o fod yn ddwyrnod golchi gytta'r Sossinjers ; ma'r dillad mâs ar yline.'

'Otti allwn feddwl bachan,' myntwn i, 'on' aros dicyyn bach i fydd yn ddwyrnod 'lladd mochyn' yn anas My Nabs miwn chyttig fyneeta, bydd ar mencos i.'

O ni ry wide awake i'r Germans ; o ni'n gwpod i tricks nw erbyn 'yn, a fi gretson ma 'dodge' odd y white flag. A na beth odd a 'efyd. I weiddas am volunteers i joino Ni'n Doi, a ma wyth o foy's yn ryttag shâg atto ni. I needas i ben y trench, a na lle odd y Germans fel morgrug yn gwân o bothdi, on' dim yn cinnig lwo. I dywlas gwppwl o'r sleepin' pills idd i cenol nw. Yr arcol na beth odd i chered i.

'Who'll jump in?' myntwn i.

Gytta'r gair ma ddeg yn cwmryd plwnsh o'r golwg yn y trench, fel sa nw'n mynd ar i penna i'r swmp, a ar ol y Sossinjers fel milgwns. Odd y Germans yn ceesho cal gafal yn y communication trench, on' no go. W i ddim yn licco gweyd, a w i ddim yn cofio faint o'r rachsach gâs i cownt weti setlo, on' i alla weyd 'yn o nw'n ryttag idd i tylla fel gwiningod o flân fferats.

I âlws yr officar arno Ni'n Doi.

'Corporal Morgan and Corporal Jones I am proud of you. Take these prisnars an' 'and them over; unless we are 'ard pressed by the enemy, an' are in urgant need of you, take three days' rest.'

'Thenkyw Ser,' mynta Dai, yn scrapin i dalcen,—  
'Thenyw Ser.'

\* \* \* \* \*

Ma ni, Dai a Finna—yn ishta o dan goedan fach yn ynjoyo'n unen. Y'n gwaith ni yw smoko, a gryndo ar y Marias a'r Johnsons yn canu duett draw eebo'r trenches. Dim arall gytta ni i neyd. Rwy short o olidays wrth gefan y trenches am dri diwarnod, on' teelwng i'r gweethwr i spel. Sha thre ma'n myddylia ni'n mynd, on pan yn wmladd yn y trenches ôs dim amsar i fyrddwyto. Pan yn secur ma petha yn wâmol, ma'r meddwl fel sa fa'n wilo am job.

Ma gneyd dim weetha yn 'ard labour i un sy'n arfadd gweetho. Na shwt i Ni'n Doi yn teemlo.

'Dim,' mynta Dai. 'Ia Shoni. W i'n cofio cys-tadleuath ar neyd englyn i 'Ddim,' a ma un dicelws y'n ffansi i, pwy yw'r awdwr w i ddim yn gwpod.'

Hen hosan a'i choes yn eise—a'i brig

Heb erioed ei dechre;

A'i throed heb bwyth o'r ede,

Yna yw 'dim'—onide.

'On' raid gatal 'dim' a wilo am rwrpath,' myntwn i. 'Ble ma'r gân fach na, gyfansoddws y bachan o Sais ny, wnnw fu'n câl scyffle a ti? Ro donc idd i Dai. A gweyd y gwir w i'n cretu i'r bachan o Lancisher ela'r story i Mishtir. Cân i, Dai, ar y dôn 'The Vacant Chair.' Ma'r gân yn attab yr amserodd.'

'Right O,' mynta Dai, a chympohir ma'r top tenor yn diaspetan, fel ma'r beirdd yn i weyd. Yr arcol fi ath yr atar yn ddishtaw. Ma swn trad sha'r tu cefan. I bippas. Yr arcol odd no annar dwsan o officars weti cyrnoi. Ond odd Dai weti colli i unan yn y gân, yr odd dagra yn i licced a, a dagra yn i laish a. I glywas un o'r officars yn gweyd,—

'By gad, this is the first time I've listened to a Welsh Nightingale that had no wings.'

'Eetha gwir, wath 'Eos' eb adenydd yw Dai. W i siwr o fod weti ela want arno chi i ddarllan y geira.

Well, ma nw yn Sysnag. Ble c as yr officar yr idea  
bert dw i ddim yn gwpod.

'THE CLATTER OF THE CLOGS.'

(Ar y D on:--'THE VACANT CHAIR.')

You've not seen my little Jimmy?  
He's my kid—just turning four,  
But you ought to hear the clatter  
Of his clogs upon the floor;  
From the dewy dawn till evening,  
Why that kid is 'potted' glee,  
Love alone could turn his chatter  
Into perfect harmony.

He's my little boon companion,  
For his mother's laid to rest;  
Oh, I love to cuddle Jimmy,  
As he nestles to my breast.

Now the sound of war was nearing,  
And recruiting came apace,  
Why, I wrestled with my 'duty,'  
As I looked in Jimmy's face;  
Who will guard my little pet lamb  
If I answer duty's call?  
Then a whisper came from heaven,  
'He is watching over all.'

Hush, the sounds of clogs are nearing,  
Little Jimmy came along,  
'You will fight for me, my Daddie,'—  
So I went and joined the throng.



'Oh my Dad is wearing khaki,'  
 Shouts my kiddie to his chums,  
 And next morning I was marching  
 To the sound of Fifes and Drums.  
 Then away to France to slaughter  
 Huns that threaten Britain's shore.  
 As I passed I heard the clatter  
 Of his clogs upon the floor.

You will understand my feelings,  
 They were twisted out of joint,  
 But I bucked up like a Briton,  
 With my heart at breaking point.

Into trenches Huns were pouring  
 German shells from morn till night,  
 But when 'o'er the top' we scudded,  
 Found the blighters would not fight :  
 But the rattle of machine guns  
 Was increasing more and more,  
 Called to memory the clatter  
 Of Jim's clogs upon the floor.

Why the thought came as a tonic,  
 And my fighting turned a joy,  
 For the clatter seemed to whisper,  
 'Dad, you're fighting for your boy.'

But how soon will dear old Blighty  
 Come again across my view ?  
 For I'd like to change my billet  
 For my Cottage, would'nt you ?  
 Oh the glorious day is nearing,  
 When this horrid war is o'er,  
 And again I'll hear the clatter  
 Of Jim's clogs upon the floor.

Why I'll fight for dear old Blighty,  
 Whi'e this bliss is kept in store,  
 Ah! I'm sniped! What's that?—the clatter  
 Of—Jim's clogs—upon the—floor.

I awoke, and found I'd landed  
 In old Blighty once again,  
 But how oft were 'Fritz' and 'trenches,'  
 Thrown upon the screen by pain:  
 Said the nurse—'I've changed your medicine,'  
 As she sidled to the door,  
 Ah, what's that! It is the clatter  
 Of Jim's clogs upon the floor.

How I hugged and kissed my kiddie,  
 But my fighting days are o'er,  
 Now I'll live—to hear the clatter  
 Of his clogs upon the floor.

On' ma'r tri dwyrnod spel ar ben. Ma fessinjar  
 yn i throttan i shag ato ni acha cefan ceffyl, a yn  
 ando notyn i Dai, a ma beth odd yn scryfynetic,—

'If Corporals Shoni Morgan and Dai Jones are  
 anywhere near, send them at once to ———,  
 near ———. We are in a very tight corner. If  
 anybody can save the situation it is Ni'n Doi.'

Signed.—Brysgwylt (Colonel).

'All right, my man,' mynta Dai, yn stretcho i  
 freecha a gâpo. 'All right, Ni'n Doi will be on the  
 double partin in a shiffy. Off you trot.'

Glascson y'n twls, fel ma nw'n weyd, i wetson

goo'-bye wrth y boys erill, a off a ni yn nrecshwn —  
 Ar mencos i odd y notyn yn gweyd y gwir, tight  
 corner, mynyffryd i, odd a. Y peth cinta notisson  
 Ni'n Doi odd milodd o'r Sossinjers yn gwascu mlan,  
 a'n boys ninna yn cwmpo nol o drench i drench.  
 A gweyd y gwir odd i bron mynd yn screch ar y'n  
 showdwrs ni.

I needws Dai ymlan fel peacock.

'Stop!' mynta fa, 'Stop!'

Ma'r llaish top tenor yn ecco'r wlad.

'Ma' ên wlad y nata yn annwl i mi,' mynta Dai.

Sôn am ylecktrick shock yn ffair Yetybompren! I  
 stoppws y Sossinjers am diccyn fel sa nw weti urto.  
 I notissws Dai ynnny.

'Carry on, me lads,' mynta Dai.

I drows y'n boys ni yn ol dan ganu—'Tis a long  
 way to Rhondda Valley.' A ma i off! Nol odd y  
 Germans yn câl i sceepo fel baw o flân brwsh parth.

'Nol a nw! Nol a nw!' mynta Dai. 'Shovel the  
 rwbetch in the dreckshon of the Red Cow.'

A nol geso nw fynd, gwment ag odd a bagla i  
 gered, on', weti i'r scarmedge ddishtewi i ffinson  
 gannodd o bantnars Will o Berlin ar i cefna yn  
 stidio'r sêrs a'r planeta.

'Eisht,' mynta Dai,' 'ma chap acha cefan ceffyl  
 yn dod ytto. Wir ddynd ma nw'n wath na  
 gweepad.'

## Y SEITHFAD SHWRNA.

“OW NI’N DOI SAVED THE SITUASHION,  
A ‘SO ON.’”

**Y** ‘so on’ yn ginta, ontefa.  
Ble o ni? O, ia, bachan acha cefan ceffyl yn  
dod shag atto ni fel y vengeance. Ni’n Doi yn roi  
stop ar wara’r Sossinjers. Shwd netho ni ‘yn? O,  
dim on’ dangos y’n gwynepa spo; na gyd. a’r arcol  
na’r penna sewar yn i iwbbwan i, yn gweiddu Das  
Paar! Das Paar! I chi’n gwpoð ma Das Paar yw  
Ni’n Doi yn iaith Will o Berlin. I escilisswch chi fi  
am gocclish diceyn ar y’ch côf chi weetha, wath ma-  
dyn yn apt o anghofio lot o foreign langwedges wrth  
ddarllan cwmment ar y pappra, a mynd diceyn yn  
nervous wrth ddishgwl am yr ên bledran fwg na -y  
Zeppelin—i ddod i etfan uwchben shimla y’ch ty  
chi cenol nos.

I werwi Dai ôs dim ffor’ yn well na dishturbo i  
olidays a; i âth yn weenad gwyllt pan ddath y  
bachan a’r notyn o wrth y General.

‘Ma waith Will o Berlin ytto,’ mynta fa, ‘ma  
dyfotol eetha climerkog yn weeto My Nabs. Ma  
weta i—

‘DYFOTOL WILL O BERLIN.

‘Rowch i’r ionc gart a donkey,—ne scwtted  
Box scatan o bothdi,—

'Old on Dai,' myntwn i, 'Sa My Nabs yn câl i ddewish o job ar ol y ryfal ma, w i'n cretu ma 'yn wetsa Will,—

'Barrel organ, Morgan, i mi,  
Ar mencos yn wir a mwnci.'

'Bachan, Shoni,' mynta Dai, yn wara'r chaw tybacco bothdi wefla, 'I ti siwr o ddod yn un o feirdd y Brain a'r Defed cyn cwpliff y scarmedge ma. Sticca ati! Ma beirdd thoroughbreds yn bring iawn yn Mryttan. Nil Referandum Shoni, wad mlan. On, ettrych ma, dw i ddim yn cretu fod mwnci weti câl i eni fyssa'n disgraso i unan wrth fynd yn bant-nar an' co a Will. Ma lot o self-suspeck gan fwnci. Os Shoni!'

'Walla ma self-ryspeck wy ti'n feddwl,' myntwn i.

'Walla ma fa,' mynta Dai, 'on' wy ti'n diall regettiad y meddwl i, Shoni, w i'n cretu fod gormod o glip gan fwnci ar i garritor i fynd i gwmpni bachan o short Will o Berlin.'

'Mlân a ni,' mynta Dai.

A mlân etho ni.

#### Y SCARMEDGE.

'THE BRAVERY OF NI'N DOI.'

'THE SOSSINJERS FRIED IN THEIR OWN FFRIMPAN.'

'CORON Y KAISER DDIM GWORTH PISHYN GROT.'

Na diccyn o dwtch pappra Llundan i chi, mishtir, a nawr am diccyn o gownt y Scarmedge.

Poppath yn barod. I ddilynson y bachan ddath a'r necas i Ni'n Doi, y fe odd i fod yn guide i ni. Odd yn awdd gwpoð fod y nos yn nesu, a'r gwynt yn dychra weepan diceyn yn orllyd. I dynson y'n neesheti poc i mäs, a fi rounson nw am y'n gwddwca. Draw, ymhell, o ni'n clywad y cenyns yn swno, rwrpath tebycca'r byd i swn aid o wenyn miwn llwyn o gôd. O ni'n cleppran amall i air, yn tynu plans, an so on, on' yn y twyllwch i gamsynws y guide yr ewl, a gorffod i ni i thrampo i nol am yn acos i ddwy filldir. Allsa'r guide ddim elp, poor dab, dim on catha, a goodi-oos, a chyffyla sy'n apal i weld yn y nos.

O'r diwadd i wynepson yn y dreckshwn right, a mlan a ni trw ên gwmydd bach cul, i lan dros frest amall i fryn, wiw dros nant fach nawr a yn y man, a'n meddyla ni yn etfan ol a blân: - sha thre nawr, off at y'n showdwrs bach ni odd "in a tight corner" wethyny, a fi ddath dwy line Sysnag i meddwl i. Ma nw:

'Ye gentlemen of England,  
Who sit at home at ease.'

Y chi yn Ngymru sy'n gallu ishta wrth y tân, mynd sha'r cwrdd, lawr i lan y môr, myn'd sha'r gwely, a felly yn y blân, a ninna—Ni'n Doi a'r boys erill—yn gorffod i styffaglan i miwn gwlad ddiarth. Ottich chi'n teemlo'n ddiolchgar weetha?

E

Mlân a ni trw genol parth o ddrain, a'n deelo a'n gwynepa yn cal i scrapin nes y'n bod ni'n teemlo fod 'ôl y frech' arno ni.

'Eisht,' mynta Dai, 'Ma swm wrni ar y law dde ma bachan, ôs ar mencos i.'

I stopson, a fi gamson i ddreckshwn yr wrni. I dynnws y guide i flashlight i mas, a beth welso ni on slashin o German officar yn cyseu o dan colfan, a'i ben yn acor fel ffwrnas flast yn ngwaith arn Nantyglo. I sefson y'n tri roun i'r bloke, on o'r diwadd i fyrstas i mäs i wyrthin: allw ni ddim peedo wir i ddyn. O ni'n ceesho meddwl shwd olwg fyssa ar wynab y boy pan fyssa fa'n acor i licced a gweld Ni'n Doi â'r guide yn i wynepu fa.

I ddi-unws! Wel, y mowredd anwl! Na wep nath a. Os dim diccon o iaith gytta fi i ddishgreefo'r olyccfa. Dotwch y'ch unan yn i le fa—yn di-uno o gwsg—flashlight, fel 'full moon' o flan y'ch trwyn chi. Nawr ta, shwd fyssa chi'n teemlo? Ffindso chi mas? Os do fa, na fel odd y sossinjer ma yn teemlo, fel sa rwpeth yn crippan trw' i wâd a, —'all shiver and shakes' fel ma'r Sais yn weyd.

W i'n cofio anas am rwpeth tepyg yn dicewdd miwn pwll glo yn'acos i'r spot lle y ceso i y ngeni. Odd no deelwr yn arfadd mynd, nawr a yn y man, i gâl eetha booze yn ——. Yn amal iawn odd a'n cal neppyn ar i ffor' sha thre. Pwlla balance odd y pwlla

glo; i fuas i yn gorwadd ar ben y shaft lawar gwaith, yn pippo lawr trwyddo, a yn wilia gyttar itchwyr odd ar weelod y pwll, pan o ni'n grottyn. Odd ddim llawar o ddwnder yn y pwlla balance, a odd y gweethwrs nos yn dod i ben y pwll bothdi doiddeg o'r gloch y nos i fyttar cinno.

I ddethon y noswath ma, a fi welson y teelwr yn cyscu yn acos i ben y pwll. I gitchwd yn y boy a lawr yr etho nw ag e i weelod y pwll, yn cyscu o'yd, a yn wrni fel ootar. I dotson y poor dab i orwadd yn y gob. I ath y gweethwrs at i gwaith, on miwn ticcyn i ddethon nol i gal pip ar y cysgatur. I sefson roun iddo, a phob un a lamp fach yn i gap, a'u gwynepa mor ddu a'r glo. On, yr arcol, i ddi-unws y teelwr, a ma fa'n dychra staran a gâpo.

'Olo!' mynta un o'r coliar. 'Olo bachan diarth, pwy y'ch chi?'

'Bachan bach o deelwr——,' mynta fa mor wynnad a shale.

'Beth yw'ch enw chi?' mynta llaish cryf fel llaish dwpwl bass.

'John ——.'

I ffeelws weyd racor, wath i gwnnws lwmpin i wddwg y teelwr

'Beth yw'ch gwaith chi?' mynta'r llaish dwpwl bass.

'Teelwr o ni yn y byd arall, ser,' mynta fa, yn crynu



nes bod i ddanadd a'n cratchan. 'Teelwr, ser, on i na i beth bo chi foneddicion yn licco ma. Gna wir ddyn.'

Odd y teelwr weti cretu i fod a weti lando yn y pwll diweelod, a i fu-ws yn gorwadd yn y gwely am bythywnos ar ol y turn out ma. Ma'r anas yn gweyd fod yr excursion gâs a y noswath onno weti gneyd mwy o les iddo na chant ne racor o spoutan miwn cwrdd dirwestol, fi ddath yn deelwr sobr ar ol 'yn.

On' beth i neyd o'r Sossinjer, odd wnnw weti câl ofan dychrynlyd.

'Now goo'boy' mynta Dai, 'Keep your mouth shut or there will be a diminnendo in your 'istory.'

I gwnnws y German ar i ishta—yn staran—a'i ddoi liccad a fel dwy sowsar.

'Wot!' mynta fa, 'Wot! Ach! Das Paar! Auf-geben.'

'Beth ma fa'n foddrach, Shoni,' mynta Dai, yn wyrthin.

'W i fel sw ni'n cretu ma cleero diccyn ar i frest ma fa bachan,' myntwn i. 'Ma fa weti llyncu rwppath sy weti cwnni fflem yn i wddwg a. Wot is my nabs talkin about ser?' myntwn i wrth y guide.

'Ach means alas.'

'O wel,' mynta Dai, 'we is Das Parr ser.'

'Auf-geben means he is ready to give in,' mynta'r guide.

On ar mencos i odd y German ar i hyd—cyd miwn ffit. I gymson fentyg i revolvar a, a phoppath arall allsa fa i uso i ladd i unan, ne i gymdoccion; i glymson i ddeelo fa roun i'r pren, i stickson bishyn o bappar ar bren o'i flân a, a ma beth odd ar y pappar yn Sysnag,—

“Warnin! Keep quiet! Das Paar will soon return. The guide is in the branches above your head, and ready to blow you to pishes if you try to play any tricks.”

“Signed—DAS PAAR,”

Erbyn y bora i greiddson o fiwn bothdi 500 ne 600 o latheidi i'r scarmedge, on odd no fryn ryngo ni. Diolch am y bora! I fuo'n yn i ddishgwl a, a fi goffas atno ch ddysgas i yn yr Ysgol Shul—'Fel mae y gwylwyr am y bora.' Na bart o'r atnod, wilwch chi am y 'missing words.' Alla i ddim peedo doti pishyn o waith Mishtir i miwn nawr—byrddoniath ar y 'Bora' yw a, Ma fa.

### BOREU O WANWYN.

O gwsg hir mewn gwisg eira—anian

Yn wenau ddefroa,

Ac eurad chwegiad y chwa

Ei haraul wisg oreura.

Yn ebrwydd wele'r wybren

Fel asur yn bur uwchben,

Heb gwmwl na nifwl nawr  
I ororau yr eurwawr.

Weithion mae'r goedwig hithau  
Am yr hîn yn mawrhau  
Duw'r nef,—e' dÿr nwyfiant  
O'i breichiau yn ganghau gant.

O y canghau y daw cyngan  
Ddidor y myrdd adar mân ;  
Y llydan feusydd llwydwedd  
Yn wyrdd gain ac hardd eu gwedd.

Botyman yw'r blodau blydd,  
I hud hulen ein dolydd,—  
Y llyn a'i wyneb llonydd  
Yn dderbyniwr delw'r dydd.

Ac am orig  
Clywaf ganig  
Y forwynig lon fireinwedd,—  
A sirioldeb,—  
Wanwyn ardeb

Yn ei gwyneb—eneth geinwedd.

Y gloew a thêg wlithyn—y rhosyn  
Ereswedd a'r gwelltyn  
Heb os yn dangos i'r dyn—ei ddyled  
I bur uned y Boreu o Wanwyn.

Na i chi bittwr o'r Bora on tefa. On', ar fâs y gwâd, ma'r pittwr dïccyn yn wânol,—shells an' bullets, bullets an' shells, yw'r anas no. Ma'r blöta i gyd weti spwylo, ma'r " rhosyn ereswedd " weti marw, a na'r spot i Ni'n Doi yn pippo arno nawr, ma'r wlad yn depyg i ên dip shindries.

## YR WYTHFAD SHWRNA.

### “WRTH DROD Y BBYN.”

Y gymylog niwlog nen—agora  
 I gawr y ffurfafen,  
 Y Lloer â tu ol i'r llen,—  
 ‘Abrec’ yw iaith y wybren,

Yn wr cadarn nawr y coda,—yr Haul  
 Mewn rhwysg yr ymddangosa ;  
 I Nêr, mor dyner a da,  
 Wele anian benlinia.

**N**A'R fframin roun i bittwr Mishtir o'r "Bora."  
 Beth chi'n feddwl am dano fa? Ma llawar i  
 fframin yn well na'r pittwr weetha, on ma'r ddoi ma  
 yn matcho yn gen-u-ine on di nw.

Ma llawar shuit o ddillad yn fwy ryspectable na'r  
 dyn ne'r fenyw sy yndi. Ma llawar shuit racosog yn  
 fframin roun i ddyn ne fenyw o'r short ôra. O, ôs,  
 fel y gwetws y bardd Sysnag,—

“Were I as tall as reach the pole,  
 And grasp the ocean with a span,  
 I would be measured by my soul,  
 The mind's the measure of the man.”

Eetha gwir mynyffryd i, on walla bod rai o no chi  
 yn barod i weiddu, “Bant a'r cart! Mlan â savin the

situashion!" O'r gora, catweh y'ch gwallt. Mlan ewn ni on' i ni gal diccyn o anal. Nid myn'd i dē-parti i Ni'n Doi. Rochor draw i'r bryn ma na filodd o Germans y sychetu am y'n gwād ni; yn barod i roi amsar twym a'r venjance i ni. Liccech chi fod yn y'n lle ni?

I ni'n cwatto diccyn dan gessal y bryn, yn cyrnoi nerth. Beth sy yr ochor draw wetas i? Wel, dim on spectro i ni; spectro fod milodd o Germans ar y watch, sa ni'n gwpođ faint walla etha ni diccyn yn fflat. Ma yn beth da weetha nag i ni ddim yn gwpođ beth sy rochor draw i'r bryn. Beth sa'r crottyn ne'r grotten deg ôd yn gwpođ beth yw'r "gofittia rif y gw lith" sy yn i aros nw fel mynydda ryngi nw a ên oetran. Wel, beth yw'ch apad chi? Beth fyssa'r anas? I fyssa'r weebotath yn omrod iddi nw, fe gwmpsen fflop o dan y pwysa cyn i bod nw yn iccan ôd. Gnesen wir ddyn. Beth sa'r bachan ifanc sy'n ceesho'i ora i ddod mlan yn gwpođ faint o "ups an' downs" odd yn i aros a, wel, "down tools" fyssa'i anas a cyn starto. Na, na, ma lle gyttā ni i ddiolch fod amall i fryn yn cwnni ben i gwatto'r dyfotol.

Ma i yr un peth gyttā'r Sossinjers efyd; ma'r bryn ryngo ni. Sa My Nabs o Berlin yn gwpođ pwy sy ma, fod Ni'n Doi yn gorwadd diccyn i gal cyrnoi nerth cyn roi eetha weltan iddo, i gesa Will y Kaiser ffit dwpwl powar o gonvulsions, a fe gollsen ninna'r sport

o gocclish ribs y bawgwms a blân y baginet. O na, gatwch i betha fod fel ma nw, cystal cwmryd petha fel ma nw'n dod, a gatal i'r mashinary byttol i fynd yn i flan, a phob un i neyd i ora i gario i brogram mas. Na'r cwppwl syniata na a'r ben, a gobeetho y gna nw i amall i fachan, sy'n ffond o ffindo beia, i gonsitro diceyn cyn acor i beeg.

Nawr am y situashion! Nawr am y scarmedge!

Pan ddath i'n ddydd fe gâs y Germans glip arno ni. O nw'n gwpoð i'r fotfadd ble o ni, a chympohir ma'r mashine-guns yn dychra crick-crackan, rwpath tepyg i en fashine golchi a un o'r cogs weti mynd yn llapra. Odd gytta ni ddim i neyd on cwatto'n penna nes bo'r diwetydd yn dod, a arfadd diceyn o amynadd fel yr en frawd Job.

On dewch chi, pan ddychri-ws i fynd diceyn yn dywyll, ma i off. Wir ddyn odd y Sossinjers yn gweetho yn eetha ryspectable, on mlân etho ni dab ar i penna nw. I nillson fryn bach a na ble odd diceyn o fwthera. Ar un ochr i ni odd y boys bach brown na o India—y Gwrkhas. Na chaps i chi, na darriars bach o ddynon! Anodd peedo ettrych arni nw er fod y bwllats yn fflyan fel 'Olloway Pills o bothdi'n penna ni.

'Dishgwl ar wna,' mynta Dai.

I ddishgwilas, a na sight! I gwmrws y Gwrkha bach naid at y German, i bwshws i faginet a i'r lan

a'i lawr with, gitchws yndo, a lawr y dâth y gillath fach odd mor sharpad a razar, a wiw, ma i'n ddo binno ar y Sossinjer wnnw.

I lan a ni dros y bryn, odd ochra diccon serth gytta fa; lawr a ni wettyny i'r trenches. Yr arcol! Na lle odd screchan! Odd cwment ag odd yn fyw yn gweiddu fel ootars, a ninna yn para i glatcho arni nw.

'Auf-Geben! Auf-Geben!' mynta nw. 'I give in! I give in!'

Lawr a'r drylla, a ma bothdi mil o'r tacla yn needo mas o'r trench i roi i unen yn brisnars. Ble odd y rest? O, yn i chered i fel llychetan i allt o gôd, bothdi petwar cant o latheidi yn mellach mlan. I blyccws Dai ar ochor y trench, i bwyntws i ddryll, a ma i off. On ma officar yn ryttag at Dai.

'Man alive,' mynta fa, 'don't waste ammunition. We 'ave licked the Germans for the time being.'

'I dont waste ammunition,' mynta Dai yn saluto. 'No ser yndeed, there you, for I eard that German officar ovar there sayin'—'Bury these ten men an' take the other one to the ospital.'

Ma Dai yn ettrych i wynab yr officar, y pwynto'r ddryll ytto, a fe bippws yr officar trw spyin'-glass.

'Got 'im!' mynta fa. 'Got 'im, I'm blowed. A bull's eye! That German officar's sossinjer 'as been cooked. Bravo Corporal!'

'Not bad ser,' mynta Dai, yn wên o glust i glust.  
'Not bad ser, one kernal and ten privats.'

'Splendid,' mynta'r officar, 'You an Corporal Shoni Morgan saved the situashion; you brought us out of a very tight corner. I am afraid there ônt be enough cannons taken from the enemy to make medals for you two. Bravo Ni'n Doi.'

'Thenkyw ser,' mynta Dai, 'Thenkyw ser for the complemants.'

I ath yr officar o wrtho ni, i ryporto diccon tepyg, a ma Dai yn gweyd yn syttan, 'Bachan, o ble dath yr officar i wpod ma Ni'n Doi ma! nw yn y'n galw ni?'

'Na beth ma dynon yn i alw yn 'world-wide reputashion,' myntwn i. 'Dera i gal spel; ma'r Sossinjers weti cal eetha dose o'r moddion odd un o ddoctors y gwaith yn y Cwm yn i alw yn 'Dose of Quiat-me-down.'

I geson lonydd am y rest o'r nes, a shawns i gal neppyn, a gweyd y gwir o ni ddim pell o fod weti bleeno. Gwaith calad i'w dispatcho Germans, cretwch chi fi, yn enwetic pan bo chi'n gorffod catw y'ch llicced yn acor i wateho na fydd i'r Germans y'ch dispatcho chi. Fe ath y sentries on duty, a fi dreison ninna gyscu. Nid peth rwydd odd cyscu, nace ar mencos i. Odd no gilion a gweeped wrth y milodd yn y'n poenu ni. Peth cás yw cál amall i



gleren yn gneyd skatin-rink o'ch trwyn chi. Ma Dai, poor dab, weti colli twft bach o wallt o ar goppa i ben, a myn depyg fod y clers a'r gweepad weti cretu ma rwy short o 'open space' odd y part wn o ben Dai Conundrum Jones, wath odd y ran fwy o'r gweepad yn cwrdd a'u gilydd no, jest i setlo'r next move.

Odd na wrni a recu ar yn ail yn dod o gornal Dai, a fi nath 'yn i fi gofio story am ddoi Irishman odd weti mynd am dro i Mexico. Gwlad bôth iawn, mynta nw, yw Mexico; gwlad y clers, gwlad y moskeetoes, gwlad y fire-flies a'r scorpions, a felly yn y blân; ma no ddi-con o variashions i chi starto show greduriaid.

Fi ath y ddoi Irishman sha'r gwely gan obeetho cyscu. On' no go, mynyffryd i. Ma'r menagerie yn dychra perfformo. Mas dâth y moskeetoes, fel Royal Drygoons, yn pranco ac yn peeco.

'Be jabers,' mynta Murphy, 'We shall be murdered Mike. Let's try under the bed.'

'I'm willin,' mynta Mike.

A o dan y gwely yr ethon nw. I gyscon diccyn, on ma'r fire-flies yn dychra parado. I ddi-unws Mike a fi gwelws nw yn etfan o dan y gwely, a ma fa yn dychra gweiddu.

'Murphy, Murphy, ye can give it up! It's no use thryin' at all, at all. The moskeetoes are under the

bed, they are lookin for us, an every one of the little beggars is carryin' a lanthorn. We better shout Kamerad.'

On odd i ddim quite cynddrwg yn y'n anas ni, o na, wath fe gyscon yn rondin o'r diwadd. Y peth gora i ela dyn i gyscu yw bleeno, on peedo cal gormod o ddose. I gyscon, i ddi-unson. Yr arcol i ffindson mas ma dim on Ni'n Doi odd yn y trench! Dim sw'n, on sw'n amall i ligotan ffrenig, bothdi size cath, yn ryttag dros y'n coesa ni.

'Dai,' myntwn i, 'Ma i bachan.'

'Beth sy'n bod,' mynta Dai.

'Ma'r Ridgmant weti mynd a'n gatal ni bachan.'

'Otti ddi, bachan?' mynta Dai yn gâpo. 'Wel, wel, ma'r Ridgmant weti mynd a'n gatal ni. Y Ridgmant gaiff y gollad, Shoni. I weliff y Ridgmant fwy o eesha Ni'n Doi, na weliff Ni'n Doi eesha'r Ridgmant. Gad i ni gal wiff o Ringar, i elpiff ni i gonsitro diceyn.'

I dynson y'n peepa mas, i smokson, a na lle buo ni yn puzzlo a chonsitro.

'The questshion of the 'our is this,' mynta Dai.

'Ere is Ni'n Doi, but ware is the Ridgmant.'

'Ay, ay,' myntwn i, 'Ay it is wotevar, ar mencos i, Ni'n Doi are in a pot of sâm, an the questshion of the 'our is,—

'Ow is Ni'n Doi to come out of the pot of sâm.'

## Y NAWFAD SHWRNA.

“MAS O'R POT SÂM.”

‘**M**A i,’ mynta Dai, yd pwffan yn ddeicon digon-sarn, ‘Ma beth yw colli gôla miwn ên waith, Shoni. Cystal gneyd move, beth di’n weyd, bachan : cystal i thrackan i sha dreckshwn y twll cloi. Wot you say John Morgan.’

‘Ia, ia,’ wetas i. ‘Cystal gatal y lodgins ma, myn depyg, os i ni am gwppla’r ryfal. Os na symeetwn ni i fyddwn yn fembars o’r ‘Neutrals,’ y tacla na ma Bottomley yn i blastro yn ‘John Bull.’

‘Clasca gwppwl o’r ‘sleepin’ pills’ na, rag ofan y cwrddwn ni a amall i Sossinjer a want peeco ffra arno fa,’ mynta Dai.

I ddiffotson y’n peepa, yn lle bo’r Germans yn câl smell y mwg. I glascson lot o’r bombs; i wetson goo’ bye wrth y lodgins—y dug-out, a off a ni a’n gwynepa—wel, anodd gwpod yn iawn i ble. Mlan a ni fel catha ac ol atar; faint gerson ni w i ddim yn gwpod, on cymphir ma’r wawr yn dangos i pheeg.

‘I shiftwn nawr,’ mynta Dai. ‘Ma’r parish lantarn yn câl i gynni.’

‘Catw di licced yn acor,’ myntwn i. ‘W i’n clywad

rwpath yn depyg i swm wispran yr ochor draw i'r clawdd na.'

I stopson. Yr arcol, ma fachan listy yn dod mas o allt fach o gôd, weti gwishco miwn shuit o khaki, yn depyg i shuit un o'n officars ni.

'Shoni,' mynta Dai, 'ma officar yn dod; allu di fentro ma wilo am Ni'n Doi ma fa: wel, mynyffryd i, ma bobo wech meesh o jâl i ni, gei di weld.'

'Goo' mornin,' mynta fa.

'Goo' mornin,' mynta Dai, yn scrapin i dalecan.

'Lost man?' mynta fa.

'Ay, ay,' mynta Dai. 'Two lost man, Ni'n Doi.'

O ni'n gweld y bloke yn cewcan ar Dai, a Dai yn towli llicced ar y bloke.

'Von lost man,' mynta'r boy miwn khaki.

Na i settlws i—y gair 'Von'—wath ma ergyd iddo yn bit i stwmog, nes i fod a ar ascwrn i gefan, a baginet Dai trw i frest a i roi'r ffinishin stroke. German odd my nabs, odd a weti strippo un o'n officars ni ar ol i ladd a, a weti gwishgo'r shuit. Na dricks y blaggards, on' o Ni'n Doi yn ry wide-awake; o ni weti cwnni yn ry fora i my nabs. I setlws y gair 'Von' y scempyn.

Walla bo chi sha thre na yn dychra cretu ma criatur creelon yw Dai, achos i fod a'n stwffo'i faginet i frest y boy. I chi, walla, weti darllan anas ên frawd

enwog o brygethwr odd yn arfadd mynd idd i goeddad bob pyrnawn dydd Satwrn acha cefan ceffyl. Odd clocyn du mawr ar gefan y prygethwr, a wnnw yn fflappan yn y gwynt, pan fyssa gwynt wrth gwrs. Odd e yn ddyn tal, tene. Odd yr olyccfa yn ddiccon i ela ofan ar yr 'ên foy' weetha.

Wel, un diwetydd dydd Satwrn, fi ddath squire y plwy yn ishta ar gefan 'untar a diccyn o freed yndo, a fi gwrddws a'r 'ên frawd. I gâs yr untar ofan syttan, i ddychrei-ws dascu a sprwingad nes i'r squire bron câl i shifto mâs o'r saddle.

'Am y dyn!' mynta'r squire, 'I chi yn ddiccon i ela ofan ar y jafol.'

'Becan y'ch pardwn chi, ser,' mynta'r prygethwr, 'Na necas i yn dod o dre y pyrnawn ma, sef i ela ofan ar y cythral trw'r dydd fory.'

Na sponiad i chi o waith Dai Conundrum Jones yn baginetto y German. Fi all Dai a finna weyd—'Becan y'ch pardwn chi, dyna odd y'n necas ni pan y detho ni o dre—sef, lladd Germans. A ma un at y rest.'

On, mlan a ni i geesho cal gafal yn y Ridgmant. Odd ôl y ryfal i weld ar bob ochor i ni; odd a'n ddiccon i dori calon dyn, on sdim use bod a thymlaŷa delicat ar fas y ryfal.

'Bachan,' mynta Dai, 'Ma ettrych ar rwpath fel

'yn yn ddiccon i ela dyn i'r 'blues.' Eisht, ma pishyn o dŷ draw myned eb i gwmpo i gyd, cystal mynd shag atto, walla cewn ni le i gâl lie down am spel.'

'Right you are,' myntwn i.

Mlan etho ni. I greiddson y spot. Wrth i jidgo fa i allswn feddwl ma ên blâs odd a pan odd a ar i drâd. I ddringws Dai lan i steps, a fi greiddws ddrws. I drows i ddishgwl nol, a fi gwnnws i ddwrn arno i. O ni'n diall y taligraffto, odd cwnnad dwrn Dai yr un peth a byssa fa'n gweyd yn Sysnag—'Shoni, keep your mouth shut.' Un quick am glywad odd Dai, odd a cystal a'r Irishman odd yn sefyll o flân St. Paul's yn Llundan. Cystal gweyd y story efa? Right O.'

Odd Irishman weti dod i Lundan am y tro cinta, a un dwyrnod fi ath mas am walk i weld y sights. Pan odd a'n ettrych ar St. Paul's ma un o sharpars Llundan yn dod atto.

'Olo Pat,' mynta fa, yn clappo'r Irishman ar i gefan.

'Begorra! An 'ow did ye know my name was Pat?' mynta'r Irishman.

'We 'ave sharp eyes in London,' mynta'r sharpar, 'I could see your name in your face. Do you see that fly on the Dome of St. Paul, Pat?'

'No,' mynta Pat, 'I can't see it, but I can 'ear it

walkin—an' I can 'ear a London sharpar takin' my watch out of me pocket, be jabers. Take that ye spalpeen.'

Fi rows Pat glatchen i'r sharpar nes i fod a ar i 'yd-cyd ar y pavin, a phan gwnnws y boy i rows y gose iddi. Na shwd un yw Dai—sharp i licced a'i glusta. I etho lan i'r steps a nalle buo Ni'n Doi yn sefyll yn eetha dishtaw, yn gryndo wrth dwll y clo. I bwshws Dai y drws yn acor diceyn, room wâg odd no. Miwn a ni fel sa ni'n cerad yn drâd y'n sana. I randawson! Allech chi ddim y'n clywad ni yn anatlu. I dynson y'n scitsha off; odd no grack yn llawr y lofft, a fi bipsion i'r room ishlaw. Yr arcol! Na sight! Tri German yn ishta o flân bord odd yn plyccu gan fwyd—dwy ne dair o boteli sham-pag-ne, poteli o wiskey, an so on. Diccon awdd gwpod i bod nw weti annar meddwi. I dynnws Dai i flack-led mâs, a fi sgrifennws ar bishyn o bappar,

'Cera lawr a sefa wrth y drws, a chatw di faginet yn barod. W i'n myn'd i uso'r ddryll, walla trei-iff un o nw i cherad i.'

I netho, a dim on jest cyradd y drws netho i cyn bo doi ergyd yn swno, a fi glywswn Dai yn gweiddu 'Ands up mynyffryd i or I'll turn you into a pepper-box. Neida miwn Shoni.'

Miwn y neidas i, a na lle odd doi German yn

farw ceg, a numbar three a'i freecha lan, a'i wynab a fel cornal tÿ, newydd i wyngalchu.

'Merci! Kamerades Merci,' mynta fa.

I ddath Dai i lawr o'r lofft, a fi glymson y boy a raffa; i gagson a â chorcyn o un o'r poteli, a fi gâs ffling i'r cornal.

'Dera i ni gâl eetha ffeed, Shoni,' mynta Dai, yn troi at y ford, ma ma durn out cystal a ffest clwb y Freemasons.'

I ishteddson, a fi fytson, on fi gâs y Sham-pag-ne lonydd. O ni'n cofio shwd effath gâs a arno ni yn nhÿ wâr Ted yn Bolougne. Ar ol câl diccon, fi dynson y'n peepa mas i ynjoyo smoke.

'Bachan,' mynta Dai, 'Ma beth yw 'Igh Life' Shoni. Chewn ni ddim gwell turn out yn dinin' room Will y Kaiser, beth di'n weyd.'

Na llê buo ni yn cerad roun i'r room, yn smoko fel doi lord, yn towli amall i ligetyn at my nabs yn y cornal, a phippan mâs wettyny trw dwll yn y wal. Eisht! I glywson gyffyla yn gweryri tu fas, jest wrth y'n cefan ni.

'Ma na gyffyla yn dod o rywla, Shoni,' mynta Dai, 'na pam ma'r cyffyla ma yn catw mwstwr.'

Ar meneos i, eetha right, ma gyffyla yn atab o ddreckshwn o'n blan ni.

'Shoni,' mynta Dai, 'Prypare to charge the enemy,



wath ma ma wyr cyffyla yn dod o rywla—Uhlans allu fentro.'

Gytta'r gair ma ddoi o'r blaggards—yr Uhlans—yn dod i'r golwg roun i dro yn yr ewl.

'Catw'n gool, Shoni,' mynta Dai yn wispran.

'Right you are, your majesty,' myntwn i, yn citcho yn y ddryll.

'I rifa i dri, a wettyny—Fire,' mynta Dai.

Odd yr Uhlans yn dod yn nes, a na sport odd gyтта nw. Dod i'r ffest clwb o nw diccon tepyg, on' o nw i gal ffindo mas i camsynad, wath odd y lanlords weti newid. Ni'n Doi odd yn catw'r boardin-'ouse nawr.

'One—two—three,' mynta Dai, 'Fire!'

I danson gyтта'n giddil a ma'r ddoi 'Uh-lan' yn ddoi 'Uh-lawr.' Blwmp yr etho nw i'r llawr fel doi gwtin o inja-corn. Mas a Dai a finna, i gitchas yn y ddoi geffyl, a nol a nw i'r stapal at i pantnars. Erbyn 'yn odd gyтта ni bump o'r cyffyla perta glapsoch chí y'ch llicced arni nw ariod. I lyseson y ddoi Uhlan i'r ty, a na lle odd petwar o'r scamps yn gorwadd yn farw, a'r German byw yn cyscu ac yn wrni fel un o beepa egsost injine windo.

'Now Corporal Morgan,' myntai Dai, 'we must shift our paraffarnalia. Dera, Shoni, clasca'r elmets, y drylla an' so on.'

I fuon yn fishi. allwch gretu; i glascwd poppath

odd o use. I gâs un o'r cyffylau fod yn 'geffyl gypsy' i gario'r tins; i glymson y German byw yn y saddle, a chyn pen wincad o Ni'n Doi a bobo geffyl—y German yn y cenol—a phobo geffyl spâr gytta Dai a finna bob ochor.

Off a ni, gan obeetho y'n bod ni yn i thrackan i sha dreckshwn y Ridgmant. Cofiwch chi, odd golwg eetha respectable arno Ni'n Doi, wath odd gytta ni bobo ddoi geffyl a annar.

'Gen-u-ine,' mynta Dai yn syttan. 'Gen-u-ine mynyfrydi Shoni.' Chewn ni ddim quad bachan. I fydd y pump ceffyl ma yn siwr o fod yn ddiccon cryf i'n tynu Ni'n Doi mâs o'r *Pot o Sâm.*

---

## Y DDEC FAD SHWRNA.

### CHEERS A PROMOSHON.

**M**LAN etho ni fel "turn out" circus, ne gwp-pwl o gypsies yn symyd i campin ground. Allwn i ddim peedo wyrthin wrth weld y ddwy bottal sham-pag-ne yn pocan mas o boccad Dai. Odd a yn y'n ela i i gofio am bishyn o boatry fuas i yn uso attrodd yn yr yshgol-bo-dydd, rwpath o bothdi

"John Gilpin was a citizen  
Of credit and renown.

Mellach mlan yn y gân ma rwpath fel 'yn  
 He carries weight, he runs a race  
 'Tis for a hundred pounds.

Rwpath yn swno fel na odd y pishyn, walla mod  
 i'n rong, on' na fe, os sdim ots, odd Dai yn et-  
 trych yn eetha smala. Awdd gwpod y'n bod ni  
 yn dod yn acos i ryw gamp ne giddil, on' pun a'n  
 dynon ni odd no ne'r sossinjers alla ni ddim gesso  
 ar unwath.

"Ma i," mynta Dai, "Watch oir ne glun bren."  
 Wad mlan, Shoni, sdim i neyd on risiko'n gwdd-  
 wea. Co bwff lo fwg draw mynco, a gobeetho  
 ma rai o'n boys ni sy na."

"Eetha bolon," myntwn i.

Ar ol tryfeilu am bothdi petar milldir, i  
 ddethon "i dwtch" a'r scouts; i gwanson neeshad  
 boccad ar flan baginet fel "white flag," a'r arcol  
 pwy odd y cinta ddath i'n cwrdd ni on Liffen-  
 ant Ted.

"Wel, mynyffryd i," mynta Ted, "Ble i chi  
 y'ch doi weti bod yn ewcan? Ma'r Kernal yn  
 wthi yn wath na stack gwaith coppor. Ble chi  
 weti bod?"

"Clascu racs," mynta Dai. "O ia spo, clascu  
 racs alli fentro; ettrych ar y collecshon. Gofyn  
 i my nabs ma; fi all 'wn attrodd story neiff i  
 di wallt di gwnni fel gwrych mochyn. Gofyn  
 iddo fa, fi naiff i di wâd di rewi yn dy gorpor-

ashon di, nēs di fod ti yn apal i sefyll ar di drâd mor stiffad a phost clwyd.”

I ddishgwilws Ted ar y Sossinjer, a wettyny ar y cambwls odd ar gefan y ceffyl.

“Wel, ar mencos i,” mynta fa, “Ma beth yw turn out.”

I ddychrei-ws wyrthin fel dyn dwl. Sdim ryfadd. Ma'r list yn didy i chi fel y cwm-rws Ted nw i lawr ar gefan embiloke.

1 German Sossinjer.

5 German swords, already sharpened.

5 German rifles in good condition and ready for use.

5 German elnets in good rypare.

5 German cavalry horses—good breed.

2 Bottles of sham-pag-ne, in Dai's pocket, out of sight, but not out of mind.

Na chi rwpath tepycca'r byd i bappar ockshwn on tefa. Sa ni'n doti “credit on condition” a “ryfreshmants supplied,” wrth i gwt a, i fyssan yn teemlo y'n bod ni'n anatlu ffresh âr y Dinas. W i yn cretu y ffindwch chi mas fod Ni'n Doi weti sycuro'r “credit on conditions a'r ryfreshmants” cyn diwadd y shwrña ma.

Ma lot o foys y ridgmant yn ryttag shag ato ni, rai yn llewish i cryssa, rai weti annar wmolch, rai yn crepo'i gwallt, a phob un yn gweiddu “Hwre.” I ddath rai o'r officars i'r

golwg, yn ffeilu diall, diccon tepyg, beth odd achos y randiboo. Odd y chief officer yn ceesho gneyd golwg ffyr, on', no go, ar y mencos i.

"Take them into the guard-room," mynta fa wrth Ted, "I will interview them shortly."

I ddotwd y German yn y quad, y pump ceffyl yn y stapal, a fi ddilynson ninna Ted i'r tent. O ni rwy gross breed rwng prisnars a dynon rydd.

Gobeetho fod rwpath gyttta chi i weyd fel sponiad, boys," mynta Ted.

"Sponiad!" mynta Dai, "Bachan, ma'r Sossinjer a'r pump ceffyl, yr elmets a'r drylla, yn ddiccon o sponiad. Beth di'n weyd Shoni? Beth di'n gleppran Ted; allwn i feddwl i bod nw'n Eiriatur Charles, Matthew Enry a sponiad Barnes weti cal i rolan yn un. Sponiad! Os diccon allu fentro, Ted."

"Catw di wallt, Dai," mynta Ted. "W i weti bod yn beccso lot o bothdi chi boys; odd ofan arno i y byssa chi yn câl cwrt martial fel doi ddesertar."

"Desertars! Yr arcol! clyw di Shoni? Desertars mynyffryd i, cystal i back o'r boys ddilyn yn tracks ni, on' i nw neyd cwmment o avoc a'r Germans ag y netho Ni'n Doi," mynta Dai. "Dishgwl ma Ted, os ôs cicko mas i fod i weta i wrth y Chief Officar, "Go on then, kick us

out, an' lose the bloomin' war." Mâs a'r sham-pag-ne na, cystal ifad iechyd da i'n giddil cyn i Ni'n Doi gal fi crocu ne'i seithu. Ma dynon sy weti cal "sentence of death" yn cal i dewish i ordro beth licca nw cyn cicko'r bwccat. Tap-pa'r bottal ma Ted."

I dappwd y bottal, a fi ifson eetha lwncead y'n tri, jest i gâl beth ma nw yn i alw Dutch courage, a fuo ni ddim yn îr iawn cyn dod i wpoð beth odd patrwn gweelod y bottal.

Ma'r officar yn dod, a dim ond jest cal amsar nath Ted i gwatto pottal numbar two. I safson yn straight fel doi fâr o alan o'i flân a, 'i nethon sylute, a fi geso i yr anryttadd o weyd yr anas shwd buodd i arno ni. Sa chi'n gweld yr officar yn gryndo; odd i ddoi liccad a yn geuad. Ma rai dynon yn gweyd i bod nw'n gallu gryndo yn well a'u llicced yn ngeuad. Na wetiff amall i fleenor yn y sêt fawr pan fydd a yn y cwrdd, a'i ddoi liccad a fel sa nw weti câl i bwtwno; fe wetiff i fod a'n gallu gryndo yn well. Otti spo. Peedwch a'i gretu fa, wath cyscu ma fa, a weti traino'i unan i beedo wrni. Ta, ia.

On', nid cyscu odd yr officar; o na, w i'n gretu ma ceuad i liccad odd a, er mwyn peedo cal clip ar wynab Dai, wath odd yr olwg odd ar wynab Dai yn ddiecon i ela wilbar i wyrthin.

Yn lle y'n crocu nĩ, ne'n seithu ni, fe'n camolws ni.

"Stay there until I call the men together," mynta fa.

Mas a ni cympohir i genol y crowd: odd y Ridgmant fel ring roun i Ni'n Doi.

"Bachan," mynta Dai, "I ni'n siwr o fod yn mynd i wara Bobby Bingo, ottin allu fentro Shoni."

"Eisht," myntwn i, "Paid a sportan, bydd yn sobor am' ddecyn bach."

Fi nath y Chief Officar speech; odd y boys yn cheero nes odd y lle yn ecco, a Ni'n Doi yn cochi fel dwy grottan pan yn cal cusan. Ma ddiwadd y speech.

"The Ridgmant will always feel proud of Sarjant Jones, of Dinas, and Sarjant Morgan, Yet-y-bompren. Now lads, give them three rousin cheers."

I warws y band "En wlad fy Nata," a "See the conq'ring 'ero." A gweyd y gwir i lanws y'n llicced i o ddwr, a fi ddalas 'yd yn nod Dai yn gneyd wep llefan efyd. I ethon nol i'r tent yn ddoi 'ero, do far mēncos i, a dim on' weti gneyd y'n dyletswdd o ni 'efyd.

"Now Sarjant Morgan," mynta Dai, "We will begin the second bottle of sham-pag-ne in 'on-our of our promoshion. Dera Ted tappa'r bot-tal."

I ifson iechyd da i Mary Catherine a Maggie Ellen,—y ddwy grottan berta wishgws bâr o scitsha ariod. Beth wêta'n nw'ch dwy, am y promoshion? W i fel sw ni'n gweld Maggie Ellen yn yr ardd, yn ongan dillad ar y line, a chwppwl o begs dillad yn i phen i. Yr arcol! Gobeetho na lynciff i ddim o'r pegs wrth gâl start pan fydd y taligrafft messenjar yn ando'r taligram idd i.

“Wel boys,” mynta Ted, “W i yn y'ch congratilato chi. I beth y cwnnwch chi cyn diwadd y ryfal ma, sdim guess gytta fi. Cystal fi finna wispran secret bach efyd, diccon tepyg y bydda i yn Gaptan cyn y “push” nesa. Wel, iechyd da i Ni'n Doi.”

I ethon mas ar ol cal lie down a smoke, a dim on glanhau drylla a baginets odd yn mynd mlan o flân pob tent.

“Bachan,” mynta Dai, “Beth sy'n bod? Ma cwrdda mawr siwr o fod yn acos. Na ffor' o nw pan o ni'n grottyn; diccon awdd gwpod pryd odd cwrdd mawr gyttar Ecclws, ne gyttar enwata. Odd pob un yn fishi gyttar brwsh wyngalchi. Os nag odd y prygethu yn gatal effath er deioni ar y pentra, odd cot o galch yn dod a iechyd i'r lle. Beth sy'n bod?”

Na gwestshwn pob un—“Wel, matey, wots up?” Ia na fel y buodd i am ddwyrnota,



on, dydd Gwenar, odd pob un yn clepran am yr Advance odd i gwmryd lle y bora wettyny. Odd neb yn gwpod o ble odd yr anas yn dod, on dod odd a. Erbyn bora dydd Satwrn o ni yn y trenches mor dawal a llicod.

“Wiw!” Ma un o’r mines yn cal i tano! Na rackets! Odd y mwstwr yn ddiccon i ollti peelen y’ch clust chi. Beth wettyny? Ma odd y ryport welas i. “It was successful, and blew up a big slice of the Prussian Guards opposite us.”

Fi gâs favourites Will o Berlin i wthi i Golyw.

---

## YR UNFAD SHWRNA AR DDEG.

---

“Y CLATCHO FFYRNICCA ARIOD.”

**Y** GAIR diwetha yn y shwrna ddiwetha odd y gair “Golyw.” Nawr ta, fel ma’r ffeeraton a’r prygethwrs yn gweyd, pan bo’r breath dicyyn yn fyr, i drown i sponio, ac i alw y’ch sulw at ymyl y ddalan.

Golyw. Ottich chi’n gwpod o ble dâth y gair i starto? Walla naccich chi. O’r gora, cystal i fi droi yn bupil-teacher i’ch dyscu chi. Ma’r anas.

I wetir fod match foot-ball yn cwmryd lle,

bothdi cant ne racor o flynydda nol, rwng doi blwy. Plwy yn erbyn plwy odd i yr amsar 'ny, a chicco am ddwyrnod cyfan, a racor na 'ny, os na fyssa un plwy yn fishtir ar yr un arall.

A na fel ma i i fod yn y ryfal ma, dim down tools nes bo'r sossinjers weti câl i cookan, dim "primatshure peace" fel o ni'n darllan yn y pappra. O nacos mynyffryd i ! Raid doti Will o Berlin yn sâf, a'r rapscaliwns, odd yn i yssan a'n mlan; raid i'r tacla ma gal bobo dickat i fynd gytta'r train sy'n mynd i stashion Golyw. A nid week-end tickats fydda nw ar mencos i.

Wel, odd y foot-ball match weti dychra yn y bora bach, a mlan odd y wara yn mynd, on' odd dim gopath fod un ochor yn shapo i feiddu'r un arall, dim arcol am gwppla'r match. I ath yn byrnawn; i doddws y pyrnawn i'r diwetydd, (na dwteh diecon pert i ynnill catar farddol on tefa?). Cympohir i ddath y nos i dynu'r blinds ar ffynestri'r dydd.

Trw lwe i ddangosws y lloiad i bôcha lliw arian, (w i'n cretu mod i yn crippan lan fel bardd; be' chi'n weyd).

On' yr arcol odd dim sôn am gwppla'r fatch ! Bothdi deg o'r gloch y nos, pan odd y ddwy ochor yn wthi fel injin Crôsha, ma wr boneddig

diarth yn needo miwn i'r cenol rwng y ddoi set o warwrs, a fel odd pantnar i fi, bachan bach o Berdar yn arfar gweyd—"I gwnnws i gose a fi gicews.," a whiw! off a'r bêl trw'r awyr.

"Gôl yw," mynta'r dyn diarth a fi ddiflannws fel sa chi'n wthi canwll mas.

A "Gôl" odd i ar mencos i, wath ddath neb i wpod ble y dishginnws y bêl. Fi ath ar goll! I gas pob un o'r warwrs ofan nes o nw'n shig-glo fel pishyn o safu far blât; off a phob un sha thre, a phob un a ofan ettrych ar i bantnar.

Ar ol 'yn, os byssa rwpeth ar goll, ne rwy un weti gatal am le odd neb yn gwpod am dano, odd gwyr y ddoi blwy yn arfadd gweyd,—

"Ma fa weti mynd i Gôlyw."

Fuodd ddim un match ar ol 'yn, wath fi gretws pob coppa ma'r Gwr Drwg, yr wn a elwir Jafol a Satan, ddath i roi y ffinishin stroke i'r match; a diccon tepyg ma fa, yr "En Foy" odd a efyd, wath odd lot o'r dynon mwya respectable yn gweyd fod rwpeth yn depyg i smell brwmstan yn llosgi pan y gwetws yr En Foy—Goo' Night.

Wel, ta ble ma Golyw, na bresant address lot o ffafrates Will o Berlin—y Prwssian Guards—erbyn yn; fe wthwd nw i Golyw.

Ma deepan i boppath on ôs a? A odd deepan arall gytta ni eblaw scep'o'r Prwssian Guards o fodolath. Y deepan wrth dano'r "mines" odd i gal' ewl rydd i'n re-inforcemants ni i ddod mlan, eb golli llawar ar fyweeta, pan y byssa i eesha nw. Am betwar o'r gloch ma'r cenyns mawr yn dychra'r consart, y quick-firers yn seithu dros y'n penna ni, a ninna'n penlinno yn y dwr a'r slwdge yn y trenches.

Odd rwpath fel 'yn yn ddiccon i ela collad ar ddyn; rwpath tepycca'r byd, allw ni feddwl, i deemlata tarriar bach yn sefyll o flan crage, a dwy ne dair o liccod ffrenig yn inside pass-enjars, a finta yn ffeilu cal chance idd i screg-go nw.

Odd wir ddyn. Anodd dishgrifo shwd o ni'n teemlo, diccon tepyg fod collad ar y'n annar ni. On bothdi iccan munad weti petwar ma ordars yn dod—"Stand by." Odd pob un yn passo'r command i'r nesa atto, a dim on cwp-pwl o eiliata odd yr ordars cyn cyradd y pen pella i'r trench. Na beth w i a Dai weti i fyd-yddio yn "Uman Taligrafft."

Odd pob un yn barod i waith; sdim ryfadd, wath odd yr anas weti dod fod Will o Berlin yn wabblo diccyn ar Bwlgaria, a Greece: yn promeesho lot i'r boys ma os dethe nw mas i

wmladd gytta'r Sossinjers. On diccon awdd promeesho, gneyd yw'r job.

Gwetwch fod Will an' Co yn ynnill, rwpath tepyg i'r ên chap yn America a'r fuwch fyssa i yn y diwadd. Beth yw anas yr ên chap, mynta chi. Wel ma fa.

Odd na ên foy weti joino a' mab i frawd i byrni buwch ar shâr miwn ffair. I ethon i doi, a fi byrnson fuwch ffirst class, un o'r black-an-tans na, o's ta fforna ma nw'n dish-grifo buwch. I ethon a'r fuwch sha thre, a fi dotwd fi i bori miwn câ. Shâr an' shâr alike odd i, annar a annar.

Y bora wettynny fe ath morwn y bachan ifanc—y nai,—i foyn llâth i dy yr ewyrth. On, yr arcol, fi gâs fynd nol yn eetha andy eb ddyferyn o lath. I wetws y grottan wrth i mish-tir fod i ewyrth a yn pallu roi llath, a ma'r boy off, a'i dempar weti ewnni, a ma fa'n i brasgamu ddi i dy i ewyrth.

“Newyrth,” mynta fa, “Achos beth i chi'n pallu' roi shâr o'r llath? I byrnson y fuwch ar shâr, alf an alf, on do fa?”

“Do, John,” mynta'r ewyrth, “Do, do. Ma bobo annar o'r fuwch i ti a finna. Neethwr i ish-teddâs i gonsitro shwd i rannu'r fuwch, a ma shwd y setlas i. Ti bia'r part blan, o'r cenol 'yd ât y cyrna, ma mark o gôl tar da fi i ddangos

y boundry; o'r cōl tar yn ol i flān i chwŧ i, y fi yw'r perchan. Wel nawr, usa diccyn o gommon sense; ma catar y ffuwch yn dicewdd bod weti i ffixo yn y'n annar i, alla i ddim elp am ynny. O'r gatar ma'r llath yn dod i ti'n gwpod i ffindas i 'yn mas y bora ma. On', os wy ti'n licco (dod bob bora i ottro di ochor di, dera, gyttā pob gresso, a os gottri (di lath o gyrna'r fuwch, fel w i yn gottro llath o'i chatar i, wel, na ffortshwn yn y'n aros ni."

Fi ath John sha thre y'n recu fel perrot.

Na shwd bydd i ar Bwlgaria, a Twrci a gwletydd erill gaiff i widlan gyttā Will, sa Will yn dicewdd ynnill, on sdim fears (am ynny. I fydd y ffools yn mynd at My Nabs i foyn i shār o'r fargan, a w i'n clywad Will fel sa fa'n gweyd—

"Cewch, cewch—Gottrwch y cyrna boys bach."

O ia, on tefa, "Stand by." Yr arcol odd i'n galad sefyll fel 'yn, o ni mor stiffad a phokars. W i'n cofio ffixo'r baginet pan y clywson ni—"Prypare to charge."

I wetas i y geira wrth y nesa atto i, on' odd y'n llaish i yn swno mor ddiarth a sa ni on' newydd i gāl a mās o'r ponshop. Odd a ddim yn swno yn depyg i wilia o gwbl.

G

Ma ddishtawrwdd! Ma'r eiliata ma'r dentist yn mynd i ettrych a wilo am y pinshwn i dynu'ch dant chi, yn llawar gwath na'r diecyn plwekan ar y'ch jaw chi wrth gal y dant mas. Yn syttan ma'r final command yn dod—"Go."

Mas o ni'n dringad o'r trenches; dros ben y cwta sand; mlan a ni; lawr a ni flop i genol y baw a'r llacca. O ni'n gweld lot o'n boys ni yn cwmpo weti i elwyfo, ne yn farw; mlan, mlan a ni o fiwn bothdi deg llathad i'r Germans.

"Charge," mynta'r officar, "Charge my lads!"

"Charge," mynta pob un o'n showdwrs ninna, "Charge!"

Odd y swm fel swm trana, a phob un o ni bron off o ar i ben i gal gafal miwn German.

"Charge, was the Captain's cry,  
Theirs not to give reply,  
Theirs not to reason why,  
Theirs but to "do" and—"die."

Na bishyn o waith Tennyson am y Light Brigade yn ryfal y Crimea. Ma lot o fraggo weti bod trw'r blynydda ar beth netho nw, on' cretwch chi fi, *un* waith gâs 'yn i neyd genti nw, on' ma cystal charges a 'yn yn cal i gneyd bob wthnos yn Ffrainc a Flandars a manna

erill, os wir ddyn. Nid ryttag y Light Brigade i lawr tw i, cofiwch chi, er ma diceyn o fisteake nath i'r "Six Undred" ryttag i genol deg mil ne racor o Rwssians, a slasho'i ffor nol a—"But not,—not the six hundred." "Charge!" mynta ni—Charge netho ni a phob un yn weenad gwyllt am gal lladd German.

---

## Y DDOIDDECFAD SHWRNA.

---

"AVOC' AR VENJANCE."

**Y** PETH diwetha w i'n gofio ar ol y gair "Charge" odd cal clip ar Dai yn sefyll ar dop tumble-down parapet. Shwd le odd wnnw, wel rwpath tepyg i gawl cambwls,—clai, a baw, a cwta sand, a barb-wire yn gymyshg, a'u giddil, shang-di-fang.

I welsw'n ddoi Sossinjer. O nw fel sa nw'n douto beth odd ora idd i neyd, pun a shotto'i breecha lan ne cal pot shot at Dai a finna. Na pryd y teemlas i want troi yn fwtehwr, allw ni ddim elp, wath odd yn raid lladd rwy



un ne mynd off o ar y men. Miwn a'r baginet i frest un, yr un peth i'r boy odd gytta fa, a odd na ddoi weti matal ar byd ma miwn wincad. I nillson Trench Numbar One 'eb fawr colliata.

Poor dabs, o mi weti cnocko'r wmladd mas o bob German odd yn acos; odd pob un o nw fel sa'i coesa nw yn ry wan idd i cario nw. I goolson lawr diccyn, on', bwtcherach ne beedo, odd yn traid i cliro nw wath odd eesha "elbo room" arno ni, rwpath tepyg i beth wetws 'en winitog, un o'r 'ên champions, os triccan ne racor a fflynnydda nol. W i ddim yn cofio i ddireshwns a, a raid i fi weyd fel y pappra—"Somewhere in Wales."

Odd yr ên byrerin yn claddu bachan bach; bachan tlawd odd a on' odd i byrthnasa fa yn ddiicon cyfoethog. Odd no ddim llawar o ffrenshipath ryngi nw a Dafydd achos i fod a'n dlawd. I ddath dydd yr anglodd; fi gas Dafydd fedd rwng doi o'r tacla odd erbyn 'yn mor dlottad a Dafydd, a falla i bod nw'n dlottach wir ddyn, wath o nw weti gorffod matal a'r toccins i gyd wrth farw. Na fel ma i yn wystod. Odd cheppyn yn gofyn i ên frawd o fleenor duwiol un dwyrnod—"Ble ma'r man gora i glascu diccyn o arian Shon Morgan?"

"O," mynta'r ên frawd, "Cera sha'r fynwant,

i blith y bedda, ma diccon i gal no on' i ti scrapin diccyn. Ma'r milionaire y gorffod gatal i gash-box a'i fankin account ar lan y bedd, mynta nw, wath fi ganws y bardd am doccins y cyfoethog fel 'yn—

“Yd angau'n brin y deuant 'wy.”

“Wel, beth am yr ên winitog. Ma fa. Wrth gladdu Dafydd i wetws rwpath tepyg i 'yn.—

“Cul odd i ar Dafydd trw i fywyd; cul yw i ar Dafydd yn y fynwant ma. On' fi ddaw amsar pan y bydd Dafydd yn apal i weyd wrth i byrthnasa cyfoethog “Elbow Room y —.”

Ma'r Censor yn eetha strick o bothdi uso geira a diccyn o rattle yndi nw, a na pam gorffod i fi ddoti strokan ar ol “elbo room.” I wetws yr ên brygethwr air eetha cryf, a sa dim Censor i watcho petha, walla shocksa gair weddol gryf y crottesi a'r ladies sy'n darllan anas Ni'n Doi.

Wel, mlan a'r anas. Ma ordars yn dod—“Build 'ead covers, an 'old the trench.”

I nethon 'ny trw shotto cwta sand i dop y trench, odd y Germans yn tano a'r cenyns mawr arno ni o trench Numbar Two. Na dano! I gofias am ddoi grottyn—doi frawd yn byw os blynydda nol yn acos i —. Odd y tad a'r fam weti mynd ar byrnawn dydd Satwrn i farch-

nad —, gan atal y, ddoi grottyn yn nre. Mynta Will wrth Twm,—

“Dera i ni gal ddecyn o sport a ên farel dryll nâd.”

“Right O,” mynta Twm, “Ma diccon o bowdwr yn yr ên ganistar na ar y ‘dressar.”

I ffindwd yr ên farel dryll a’r powdwr.

“Nawr,” mynta Will, “Dod y pokar yn y tân nes i fod a’n eetha coch, i lanwa i y barel, a der (di a’r pokar idd i ddoti ar y touch ‘ole, a fi fydd na bounce gei di weld.”

Poppath yn barod, odd Will yn dala’r farel ar steppyn y drws, a’i ben mas sha dreckshwn yr ardd. Ma Twm yn dod a’r pokar coch, a yn i ddoti fa far y touch ‘ole, a ma bounce ar mencos i. Fi ath y barel yn gorfforol i’r ardd, a Will ar ascwrn i gefan i’r cwtch dan stârs. Fuodd a dim wincad cyn bod ar i drâd a’i ddwrn wrth drwyn Twm.

“Cera o na ti’r ffwl,” mynta fa, “Odd genti ddeccon o dân yn yr ên bokar na i dano tynnell o bowdwr.”

Odd no ddeccon o dân gan y Germans i sceepo pob coppa o ono ni i golyw—ond—netho nw ddim.

*“Ynill Trench Numbar Two.”*

I jofeddson am bothdi deg munad, dim racor mynyffryd i, a ma ni mas o’r trenches. I ath

Dai i gommando'r boys a'r bombs, a chympohir odd y Sossinjers yn cal eetha ffeed o gyrch. Mlan a ni, yn cwtcho wrth gefan pob twmpyn bach; mlan wettyny yn cyscoti wrth gefna llwyni bach, rwpath bothdi size llwyn gwspris ne gwetwch gurrans duon; mlan trw'r cwteri, reiny ma nw yn i alw yn gommunication trenches, a weti cyradd o fiwn i ddwsan o latheidi i'r Germans ma ni'n dychra gweiddu fel swn milodd o ootars.

"Charge! Charge!" mynta'r officars.

I charjon, a fi nillson Drench Numbar Two. Yr arcol! Na beth odd sight! Odd gweelod y trench weti cal i bafo a Germans, a phob un o nw yn "dead o." Poor dabs.

*"Ynnill Trench Numbar Three."*

Off ar y trot ytto i ddreckshwn Trench Numbar Three. Odd pob un yn cwmryd mantash o bob breecyn o bren i gwatto diccyn. Miwn rwy berfformance fel 'yn y ma'r bachan tene, y slim-myn main, yn dod mas yn ora. O ni'n napod crottyn, os slawar dydd, odd mor fain a nyttwdd. Wel, a gweyd y gwir, fi netha ddrychiolath ffirst class, netha wir ddyn.

Ar ddwyrnod tywyll o ni'n arfadd taro'r bai arno fa, i fod a'n stoppo'r oil i ddod mas.

"Cera sha thre," mynta'r crots erill, "Bachan, cera sha thre; cera i gwatto di big yn y gecin,

ne'r ewtch dan stâr, ma'r ôil a chwilydd dod mas, ma'fa weti danto tywli di gisgod di ar y llawr."

On, cretwch chi fi, fi netha eetha turn out yn fisnass y ewatto ma, be chi'n weyd. Off a ni, a fi welson dderwan fawr eb fod yn mêll, i gwatson wrth i chefan i, (y fi a chwppwl o bantnars wrth gwrs, a nid y Ridgmant i gyd, i fyssa un dderwen yn close quartars i Ridgmant gyfan). Na lle y buodd diceyn o seithu, i fyssa'n worth i chi gerad petar milldir, yn drâd y'ch sana, i gal un pip arno ni. Mlan a ni wettyny fel y venjance trw'r pwlla o nw yn i galw yn shell 'oles, pwlla dwfwn weti cal i gneyd gan y shells pan yn dishgyn.

Ma le! Odd no goesa yn poka mas o'r rwb-betch, sossinjers weti cal i claddu o dan y cwmp o nw. Beth o ni'n neyd a nw? O roi eetha blwck i'r esgid i gal gweld os odd y poor beggar yn fyw, sa fa yn dychra spriwingad o ni'n gwpod i fod a yn fyw, on—dim fears, odd pob un yn eetha marw. Rosson ni ddim yn ir, ma rwsh tytto, wath odd contract gyttu ni i gliro rwb-betch o Trench Numbar Three.

Ar y'n ochor dde ni i gesson glip ar lot o Germans yn gweetho mashine guns. Lawr a ni fel trucks o black pan ar i penna nw! Miwn

a'r baginets idd i brestis nw bob un, short work ar mencos i, a walla i amall un scapo, on sa chi'n i clywad nw yn becan am gal byw.

“Kamarades! Pas Kaput!”

Na o nw'n screchan, rwy gross breed rwng German a French. Ma cross breeds miwn iaith yr un peth a miwn creduriaid. Cerwch am dro i weelod Shir Bemro, a walla clyw-wch chi fam yn gweyd wrth i merch

“Go mäs to the gegin to fetch the sospan to berwi the cawl.”

Os dy'ch chi am wpod beth yw yshtyr y geira odd y Sossinjers yn weyd, cystal i fi sponio.

Kamerades—Comrades.

! Pas Kaput—Don't do us in.

W i fel sw ni'n clywad y Sossinjers yn gweiddu o 'yd: Comrades, dont do us in—peedwch a'n lladd ni. On odd rai o'r rapscaliwns yn ddiccon ecar i seithu atto ni ar ol i ni ynnill y trench. I seithws un o'r German officars dwll trw law Dai, on ar mencos i, nath y cheppyn 'ny ddim mwy o fistake yn i fywyd, wath, i werwi Dai Conundrum Jones, ôs dim gwell ffor' na threio cwmryd mantash arno, pan bo tymlata caretig yn dychra gweetho yn i frest a, fel berman cwrw, ne ferman total, miwn patall o dose.

## Y DRYTYDD SHWRNA AR DDEG.

“TYNU SHA WEELOD Y PWLL.”

**I** ROWS Dai cystal peren yn môn clust y German officar ag y cas a ariod; fi gwm-pws y boy ar asewrn i gefan, a fi ishteddws Dai ar i chest a, yn ettrych mor jokose a sa fa miwn catar freecha yn room front Mrs. Jones y lodgins.

“Merci! Merci!” mynta fa, a na lle odd Dai yn poppan lan a lawr bob tro odd y boy yn anatlu.

“Bachan,” mynta Dai “W i’n teemlo fel sw ni’n ishta ar gconcertina ne gconcordance.”

“Merci! Merci!” mynta’r Sossinjer, “I ’ave a wife an five childern at ome.”

“Dyn-di-shefoni! Ave you mun?” mynta Dai, “Na beth ryfadd, Shoni, ma gan bob un o’r blokes ma wife an five children at ’ome, sdim ots os ma crottyn pymthag ôd yw a, a dim on’ diccyn o flew gwspris ar i wefus a yn coeddu fod mystash yn dod cymphir. Yr un ên story sy gytta fa, a ma nw’n siwr o fod weti practiso gweyd y story cyn starto o dre. “Shut

up mun, (mynta Dai wrth y Sossinjer) or you will shiggle me off your bloomin stomach."

On' fi gas yr ên griatur drugaredd cymphir, wath fi gwnnws Dai o'ar i fecyn a.

"Tanks." mynta'r Sossinjer.

"Sit down, mynyffryd i," mynta Dai, "an dont you try any gammocks agen my nabs."

I ishteddws, a na lle buodd a yn ceesho scrap-in y mwd o'i licced a'i wefla a chillath boc. On', cyn bo chi'n cal amsar i beswch, i welswn Dai yn pointo'i ddryll i gornal un o'r dug-outs. Ar' mowcedd! Ma laish screchlyd, yn depyg i laish Will mab Ann yn canu "The Anchor's Weighed" yn tap-room y Star, rwy gross breed o laish, rwpath fel whistle motor-car a mouth organ mas o rypare.

"Merci," mynta'r llaish, "Merci! Dont shoot! Merci Kamarades I am a Christian."

"Christian I'm blowed, you will require a lot of spring-cleanin' to make a Christian of you my boy," mynta Dai. "'Ands up! Forward, march."

"Merci, Merci!" mynta fa.

"Aros di'r ên geelog," mynta Dai, "I na i rwpath arall o'ono ti miwn wincad."

Ma Dai yn pointo'i ddryll ytto.



"Merci," mynta'r boy yn nesu mlan 'a'i ddeelo lan.

"Sit down," mynta Dai. "You are a Christian are you? Halt Christian, 'an give the countersign; but praps, like Will of Berlin, you 'ave forgot it, you 'ave left your Christianity on the sheffonier at 'ome. Well, Christian, I can see you are too good for this world; if you stay in it a little longer, your mastar, Will the Butchar, might spoil your carritor. Now Sossinjer go down on your knees."

Lawr a fa dab ar i benlinna.

"Serjant Dai Jones of Dinas Cross will ——."

"Merci! Merci!" mynta fa yn weppan.

"Well" mynta Dai, "You 'ave my symphony."

"Bachan," myntwn i "Paid bod mor 'dwp, pishyn o ganu yn y Sol-ffa yw "Symphony." Diccon tepyg ma sympathy wy ti'n feddwl—ne yn Gwmrag—cydymdeemlad. On' w i boun o weyd fod genti ffor' od iawn idd i ddangos a."

"Walla taw a, Shoni," mynta Dai. "Look 'ere mate (yn staran i wynab y sossinjer) I am goin' to convert you, I 'am goin' to turn you—into—a—Angel."

Odd y Sossinjer yn diall diccon o Sysnag i wpod fod Dai yn mynd idd i seithu fa, a fi

gwmpws fflop ar i wynab i genol y baw a'r slwdge miwn ffit. Odd yn dreni wir ddyn idd i weld a, odd i gorff a'n shigglo fel pishyn o afu miwn dwplar.

"Gâd i nawr, Dai," myntwn i, "Paid a phoenu racor ar y criatur tlawd."

"Eetha right Shoni," mynta Dai, "Diccon tep-yg fod lot o'r showdwr's cyffretin ddim yn moyn wmladd. Ma gwyr trâd y Germans yn cal i fforso i wmladd, a ma cannodd, os naccos milodd o nw, weti cal i lladd gan i officars nw unen. Ma blân baginet yn coclish di gefan di yn siwr o neyd rwy short o showdwr o ono ti. O ni'n darllan fod cannodd o'r Germans yn pallu mynd mas o'r trenches yn acos i Riga i wmladd a'r Rwssians, a fi geson i sceepo i dragwyddoldab gan i cenyns i unen."

"Beth di'n geesho weyd!" myntwn i.

"Eetha gwir, Shoni," mynta Dai.

Ma'r bugles yn swno! Ma'r officars yn dod yn wêna i gyd o glust i glust. Odd y "Great Drive" weti chwpla a Thrench Numbar Three weti i ynnill.

"Take a little rest, my gallant men," mynta nw, "but keep your eyes an' ears open."

Fi ath yr officars, a ma Dai yn troi at y pishyn afu dynol odd ar y llawr.

"Get up cock-robin." mynta Dai.

I gwnnws y bloke a'i wynab a fel pledran o lard, a'i ddoi liccad a yn acor fel drws back-kitchen, odd a siwr o fod yn cretu fod Dai bothdi ffixo dwy atan i neyd "Angel" o ono.

"Down tools, my boy," mynta Dai, "Pack your box, for we are goin' to send you both to a "Consideration Camp."

"Concentration Camp," myntwn i.

"Walla taw a," mynta Dai, "On' ma'r enw gas i roi gytta fi yn ddiicon classical, wath ma na lawar gomrod o gonsitro yn bod yn y'n camps ni yn Lloegar, llawar mwy na sy yn Germany o bothdi'n showdws ni sy yn brisnars of war."

I backwd y ddoi Sossinjer off gytta'r rest, a fi orweddson ninna miwn dug-out i fyttu diecyn o fwnch cyn setlo lawr i gâl neppyn bach. On' fuo ni ddim yn i'r cyn bod ar y trot, nid y Ridgmant w i'n feddwl on' Ni'n Doi. Ar ol bothdi awr o spel ma Dai a finna yn cwmryd walk trw un o'r Communication Trenches.

"Shoni," mynta Dai yn syttan, "Os dim trist na threi-iff rai o'r beggars ddod ar y sly i gal gweld shwd i ni. Ar mencos i bachan ma gen i idea gen-u-ine, os wir 'ddyn. Beth sa ti a fi yn shinko diecyn o bwll yn y trench ma." (Raid i chi'r dyrllenwrs gofio fod rai o'r trenches fel

lefals o dan y ddeiar, rwpath fel y lefla i chi'n weitho (i gal gafal yn y gwythienu top.)

"Wel," myntwn i, "Catw'n gool."

"W i weti darllan yn y Standar' Three Books i bod nw yn dala llewod a chreduriad gwyllt o'r short yn Affrica wrth shinko pwlla," mynta Dai.

"Ar mencos i Dai," myntwn i, "Ma rwpath yn di ben di eblaw blawd-llif efyd. Right O. I ewn nol i ereyd mandral a raw, a fi shinkwn eetha bwll, a bobo man 'ole yn yr ochra i Ni'n Doi i gâl lle i gwatto i watcho'r Sossinjers, a chatw'r score."

Nol etho ni, yn i brasgamu ddi fel doi grottyn newydd gal (i gwllwn mas o'r ysgol. Fi geson bobo fandrall a raw, a na lle buodd gweetho, allsa'r Navvy Brigade odd gyttta John Ward ddim gneyd gwell na chwickach gwaith. Dai odd a chontrack y pwll, a finna'n shapo'r man 'oles. Fi gwplwd y contrack, i dynson y'n peepa mas, a na lle odd smoko. I ethon nol i gal golwg ar y rest o'r Ridgmant, i gal bod yn sâf y tro ma, o ni ddim am fod yn "Two Lost Man" yr ail waith.

I ath Dai at un o'r officars, a na lle buo nw'n cwnsela, yn idepyg i grottan a'i spônar, a wir ddyn ma Dai yn mynd gyttta'r officar, a men ticeyn yn dod nol a pharsal bach dan i gessal—

bara, a chig, a chaws, a dwy ne dair pottal o—. “Dera,” mynta Dai, “Ma poppãth yn all right. I wetws yr officar—Yes, yes, go an’ try your luck, we may be troubled with a few spies. I can trust you (Ni’n Doi, but keep your ears open for your own bugles.”

Off a mi. A chi gewch wpod yr anas yn y llyfr nesa ←’OW NI’N DOI TRAPPED THE SOSSINJERS. Na beth licce Will o Berlin ddarllan yn i bappar y LOKALANZLIGER.—“Ow the Austro—German—Turkish—Bulgar Army, trapped Ni’n Doi—the celebrated “Das Paar” from Wales.” Wi’n gweld gwynepa rai o chi yn dychra mynd fel sheeten. Peedwch a beccso, dyrllenwch y llyfr mesa yn eetha cool.

---

*Notyn at y dyrllenwrs,—*

Os liccech chi ddarllan y’n anas ni ’yd y diwadd, pyrnwch lifyr No. 3—“Y Twll Cloi.”